# Cyflawni Brexit

## Gwireddu Potensial

## Cymru



Maniffesto Plaid Geidwadol Cymru 2019

# Fy Ngwarant i

Os bydd mwyafrif o ASau Ceidwadol ar 13 Rhagfyr, rwy'n gwarantu y bydd y Senedd yn cymeradwyo ein cytundeb newydd. Byddwn yn cyflawni Brexit ym mis Ionawr ac yn gwireddu potensial y wlad i gyd.

Rwy'n gwarantu'r canlynol:

- Sicrhau bod y lefel fwyaf erioed o gyllid ar gael i GIG Cymru er mwyn ariannu mwy o feddygon, nyrsys ac apwyntiadau meddyg teulu.
- Sicrhau bod 20,000 yn rhagor o heddweision a chyflwyno dedfrydau llymach i droseddwyr.
- Cyflwyno system seiliedig ar bwyntiau, fel yn Awstralia, er mwyn rheoli mewnfudo.
- Buddsoddi miliynau yn rhagor bob wythnos mewn gwyddoniaeth, ysgolion, prentisiaethau a seilwaith gan reoli lefelau dyled hefyd.
- Darparu cannoedd o filiynau mewn cyllid cyfalaf i Gymru er mwyn buddsoddi mewn trafnidiaeth, band eang a gwella ein cymunedau.
- Cyrraedd sero net erbyn 2050 gan fuddsoddi mewn atebion ynni glân a seilwaith gwyrdd er mwyn lleihau allyriadau carbon a llygredd.
- Ni wnawn godi cyfraddau treth incwm, yswiriant gwladol na TAW.

Os bydd Llafur Jeremy Corbyn ac SNP Nicola Sturgeon yn dod ynghyd ac yn cymryd rheolaeth ar 13 Rhagfyr, cawn ddau refferendwm ar Brexit a'r Alban yn 2020.

Ewch ati i gefnogi Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol fel bod ein gwlad yn gallu symud ymlaen yn hytrach na mynd am yn ôl.

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 2
Cyflawni Brexit .......... 7
Byddwn yn Canolbwyntio ar Eich Blaenoriaethau .......... 11
Byddwn yn Gwireddu Potensial Cymru .......... 27
Byddwn yn Atgyfnerthu Cymru yn y Byd .......... 45
Byddwn yn Eich Rhoi Chi yn Gyntaf .......... 53

# Cyflwyniad

## RHAGAIR GAN BORIS JOHNSON

Dros y tair blynedd a hanner ddiwethaf, mae'r wlad hon wedi teimlo fel llew mewn caets, yn methu dianc. Rydym i gyd wedi rhannu'r un rhwystredigaeth – fel rhyw gar moethus hynod wyrdd mewn tagfeydd traffig. Gallwn weld y ffordd ymlaen. Rydym yn gwybod i ba gyfeiriad rydym am fynd – ac rydym yn gwybod pam na allwn symud.

**Mae Senedd sydd wedi'i hollti ac sy'n gwrthod cyflawni Brexit wedi ein parlysu. A dyna pam mae'r etholiad hwn mor dyngedfennol.**

Drwy gyflawni Brexit gallwn roi diwedd ar yr ymraniad a'r anghytundeb llwyr sydd wedi bod mor andwyol i'n gwleidyddiaeth ni.

Drwy gyflawni Brexit gallwn adfer hyder busnesau a theuluoedd, a rhoi sicrwydd iddynt unwaith eto.

Drwy gyflawni Brexit gallwn adael i don anferth o fuddsoddiadau gyrraedd y lan o'r diwedd.

Drwy gyflawni Brexit gallwn ganolbwyntio ar flaenoriaethau pobl Prydain, ariannu'r GIG a mynd i'r afael â chostau byw.

Drwy gyflawni Brexit gallwn ryddhau'r llew hwnnw o'i gaets a symud y wlad ryfeddol hon yn ei blaen.

Ac fel mae pethau ar hyn o bryd, dim ond un ffordd sydd o gyflawni Brexit – ethol llywodraeth Geidwadol fwyafrifol ar 12 Rhagfyr.

Rwy'n falch iawn o gyflawniadau'r Llywodraeth hon yn ystod ei 100 diwrnod cyntaf. Rydym wedi amlinellu rhaglen wych ar gyfer y blynyddoedd i ddod: dod yn un a chadw'r ddysgl yn wastad, gan sicrhau bod pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn cael cynnig cyfleoedd.

Mae gan y DU fanteision heb eu hail. Rydym yn arwain y byd o ran technolegau'r 21ain ganrif, o fatris i fiowyddorau. Mae gennym lawer o'r prifysgolion gorau ar y ddaear. Mae rhannau o'r wlad hon yn fwy cynhyrchiol ac yn fwy arloesol nag unrhyw le arall yn Ewrop.

Ac eto mae rhannau o'r wlad sy'n teimlo eu bod wedi'u gadael ar ôl. Mae talent ac athrylith wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled y wlad. Nid felly cyfle. Nawr yw'r amser i gau'r bwlch hwnnw – nid dim ond am fod hynny'n gwneud synnwyr economaidd mor amlwg, ond er mwyn cyfiawnder cymdeithasol syml.

Fel Ceidwadwyr, credwn yn gryf y dylai pob plentyn gael yr un cyfle i ddangos ei ddoniau a byw bywyd i'r eithaf.

Rwyf am i bawb fwynhau'r sicrwydd sylfaenol hwnnw a ddaw o strydoedd diogel a chymdogaethau diogel – felly rydym yn cefnogi ein heddlu, gan roi 20,000 yn rhagor o heddweision ar y stryd, a rhoi'r pwerau iddynt fynd i'r afael â throseddau drwy stopio a chwilio.

Dylai pawb yn y DU gael y tawelwch meddwl a'r hyder a ddaw o ofal iechyd o'r radd flaenaf, felly bydd y Llywodraeth Geidwadol Un Genedl newydd hon yn rhoi'r hwb ariannol mwyaf erioed i'r GIG, a fydd yn werth £1.9 biliwn ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Os bydd y Llywodraeth Geidwadol hon yn cael ei hailethol, cawn chwyldro seilwaith yn y wlad hon. Nawr yw'r amser i fuddsoddi yn Rheilffordd Pwerdy'r Gogledd, a Chanolfan Reilffordd Canolbarth Lloegr, a sawl prosiect arall, yn ogystal â rhaglen fuddsoddi enfawr ar gyfer ein ffyrdd a band eang gigabit i bob cartref a busnes.

Byddwn yn buddsoddi mewn technoleg ac arloesedd. A byddwn yn buddsoddi ym mhobl Prydain, drwy sicrhau bod ganddynt yr adnoddau a'r hyfforddiant i ffynnu yn economi'r 21ain ganrif.

Ni yw'r unig blaid all gyflawni hyn oll, oherwydd ni yw'r unig blaid sy'n deall y cydbwysedd a'r cymesuredd sydd wrth wraidd economi'r DU.

Credwn mewn gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith digyffelyb, nid dim ond am eu bod yn bethau da ynddynt eu hunain, ond am mai dyma yw conglfaen economi marchnad rydd ddynamig.

A dim ond un ffordd sydd o dalu am ofal iechyd o'r radd flaenaf a seilwaith neilltuol – a hynny yw meithrin ac annog y miliynau o fusnesau Prydeinig, yn rhai bach a mawr, sy'n creu cyfoeth ein cenedl.

Eu llwyddiant nhw yw ein llwyddiant ni. Gwaith arloesol gwneuthurwyr batris a chynllunwyr tyrbinau Prydain sy'n ei gwneud hi'n bosibl i ni dorri CO2 a chyflawni ein nod o fod yn garbon niwtral erbyn 2050.

Yn union am ein bod yn deall cysyniad dyheadau, a mentergarwch, y mae'r DU bellach yn arwain chwyldro diwydiannol gwyrdd newydd.

Trasiedi'r Blaid Lafur fodern o dan Jeremy Corbyn yw ei bod yn casáu'r cymhelliant i wneud elw i'r fath raddau y byddai'n dinistrio'r hyn sydd wedi gwneud y wlad hon yn llewyrchus – ac yn codi trethi heb fod gofyn.

Er mwyn deall effaith Llywodraeth Corbyn ar bobl gyffredin, cofiwch ei fod wedi pleidleisio yn erbyn toriadau treth gwerth £7,800 i bobl ar incymau cymharol fach. Mae eisoes wedi ymrwymo i godi treth gorfforaeth i un o'r lefelau uchaf yn Ewrop.

A beth y gwnaiff ef yn rhagor? Mynd ar sbri gwario a benthyca, a fyddai'n costio £2,400 i bob trethdalwr, yn ogystal â chymryd 10 y cant o werth ein busnesau amlycaf a rhoi'r asedau hynny yn nwylo John McDonnell. Am wiriondeb.

Byddwn yn rhedeg economi sy'n fwyfwy cryf a dynamig.

Byddwn yn amddiffyn ac yn diogelu ein Teyrnas Unedig – y cwlwm o bedwar sy'n creu'r bartneriaeth wleidyddol fwyaf llewyrchus mewn hanes.

Rydym yn ymfalchïo yn ein Lluoedd Arfog, a byddwn bob amser yn eu hariannu'n briodol.

Mae Jeremy Corbyn yn barod i chwalu'r DU; chwalu'r Lluoedd Arfog, a hyd yn oed pan welwn lofruddio mewn gwaed oer ar dir Prydain, ni all sefyll dros ein gwlad a gwneud yr hyn sy'n iawn.

Byddwn yn sefyll i fyny dros ein gwlad a'n gwerthoedd ledled y byd.

Yn anad dim, byddwn ni fel Ceidwadwyr yn parchu ewyllys democrataidd y bobl. Ar ôl tair blynedd a hanner o laesu dwylo, mae gennym gytundeb newydd gwych sy'n barod i'w roi ar waith, fel y gallwn ymadael â'r UE erbyn 31 Ionawr.

Gallwn gyflawni holl fanteision gadael yr UE: llunio ein cyfreithiau ni'n hunain, rheoli ein ffiniau ni'n hunain, cymryd ein harian yn ôl, a mwynhau rhyddid newydd o bob math..

O borthladdoedd rhydd i gytundebau masnach rydd, o ddiddymu'r arfer creulon o gludo anifeiliaid byw i dorri TAW ar damponau, byddwn ni, yma yn y DU, yn gallu parhau i fod yn agos at ein cyfeillion a'n partneriaid Ewropeaidd; ond lle y dewiswn, byddwn yn gallu gwneud pethau'n wahanol ac yn well.

Gyda Senedd newydd a Llywodraeth fwyafrifol synhwyrol, gallwn gymryd camau breision a chadarnhau'r cytundeb mewn diwrnodau. Mae'n barod i'r ffwrn ac mae holl ymgeiswyr Ceidwadol yr etholiad hwn, 635 ohonynt i gyd, wedi addo pleidleisio o blaid y cytundeb hwn cyn gynted ag y bydd y Senedd yn ailgynnull.

A beth mae Jeremy Corbyn yn ei gynnig? Negodi o'r newydd, ac yna refferendwm newydd – ac ni all ddweud wrthym ar ba ochr y byddai o hyd: i mewn neu allan, Aros neu Adael.

Mae'n ffordd sicr o wneud llanast o bethau, a waethygir gan ail refferendwm ar annibyniaeth yr Alban.

Mae'r wlad hon wedi cael llond bol o'r anwadalwch a'r ansicrwydd, o'r anobaith a'r ansefydlogrwydd.

Nid ydym am wastraffu 2020 ar ddau refferendwm chwerw.

Rydym am i'r flwyddyn nesaf fod yn un llawn gobaith, ffyniant a thwf.

Rydym am symud ymlaen, gyda'n rhaglen o fuddsoddi mewn addysg, seilwaith a thechnoleg, er mwyn creu economi cyflog uchel, sgiliau uchel, trethi isel.

Rydym am gyflawni Brexit fel y gallwn fwrw ati i sicrhau mai Prydain yw'r man gorau yn y byd i fyw, i fynd i'r ysgol, i fagu teulu, i fod yn berchen ar gartref, i ddechrau busnes – gan weithredu'r rhaglen amgylcheddol fwyaf uchelgeisiol a welir mewn unrhyw wlad ar y ddaear.

Gadewch i ni gyflawni Brexit, a symud y wlad hon yn ei blaen.

**Boris Johnson**
Prif Weinidog

# RHAGAIR GAN PAUL DAVIES

Mae Cymru bob amser ar ei hennill pan fo Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan. Ers 2010, mae diweithdra wedi gostwng i'w lefel isaf erioed, mae ein heconomi wedi tyfu ac mae Llywodraeth Cymru yn cael mwy o arian bob blwyddyn nag erioed o'r blaen.

**O dan y Ceidwadwyr, am bob £1 a gaiff ei gwario ar wasanaethau datganoledig fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cynghorau yn Lloegr, mae Cymru yn cael £1.20 i'w wario ar wasanaethau yma. Mae cannoedd o filiynau'n fwy hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn cytundebau twf ledled y wlad sy'n helpu cymunedau ledled Cymru i ffynnu.**

Yng Nghymru, Llywodraeth Lafur sy'n gyfrifol am lawer o feysydd polisi. Lle mae hynny'n wir, mae ein maniffesto yn amlinellu'r camau y byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn eu cymryd er mwyn cyflawni newid cadarnhaol i bobl Cymru.

Bydd ein cynllun ar gyfer y GIG ac addysg yng Nghymru yn trawsnewid y sefyllfa druenus rydym wedi'i gweld o dan Lywodraethau Llafur olynol yng Nghymru ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf.

Byddem yn adeiladu mwy o gartrefi, yn trawsnewid gofal cymdeithasol, ac yn buddsoddi mewn seilwaith fel ffyrdd, rheilffyrdd a band eang, fel bod Cymru yn genedl gysylltiedig fodern. A byddai ein hymrwymiad i gyn-filwyr a'r lluoedd arfog yn sicrhau bod ein harwyr, a'u teuluoedd, yn cael yr anrhydedd maent yn ei haeddu.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymfalchïo yn ein hiaith a'n diwylliant Cymraeg a byddwn yn parhau i ddathlu a hyrwyddo ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob cwr o'r wlad. Byddwn yn parhau i ddiogelu a buddsoddi mewn sefydliadau Cymreig fel S4C, y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru, yr Urdd a'r Eisteddod Genedlaethol.

Ein Cymru, ein dyfodol; bydd Cymru ar ei hennill gyda ni.

**Paul Davies**
Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru





# Cyflawni Brexit

Pan gerddodd y Llywodraeth newydd i mewn i Stryd Downing, gwnaeth y Prif Weinidog addewid syml: cyflawni Brexit. Dywedodd llawer nad oedd yn bosibl. Ond, mewn dim amser, roedd wedi negodi cytundeb newydd gwych – er i'r Senedd wneud ei gorau glas i'w atal rhag gwneud cynnydd.

Ac yna, pan wnaeth ei gyflwyno i ASau, gwnaethant fynnu ar hyd yn oed fwy o oedi.

Rhaid i ni symud ymlaen. Dim rhagor o ailnegodi. Dim rhagor o refferenda. Mae pob wythnos yn costio'n ddrud i ni. Mae buddsoddiadau yn aros i ddod mewn i'r wlad. Ni all teuluoedd na busnesau wneud penderfyniadau tyngedfennol. Ni all gwasanaethau cyhoeddus gael y sylw y maent yn ei haeddu.

**Ein blaenoriaeth fel Ceidwadwyr yw cyflawni Brexit – fel y gallwn wireddu potensial y wlad fawreddog hon. Fel y gallwn oresgyn y rhwystrau mae pleidiau eraill wedi eu creu i'n gwlad. Fel y gallwn anrhydeddu penderfyniad y bobl yn 2016 a defnyddio'r rhyddid newydd a gawn yn dilyn Brexit i drawsnewid y DU er gwell drwy ganolbwyntio ar eich blaenoriaethau chi.**

**Os gwnawn ethol mwyafrif o ASau Ceidwadol i'r Senedd, byddwn yn dechrau rhoi ein cytundeb drwy'r Senedd cyn y Nadolig a byddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr .**

Bydd cytundeb newydd Boris Johnson yn gweld y wlad gyfan yn ymadael â'r UE fel un Deyrnas Unedig. Bydd yn golygu ein bod yn gadael yr undeb tollau, gan ein galluogi i bennu ein tariffau ein hunain a llunio ein cytundebau masnach ein hunain. Bydd hefyd yn ein galluogi i basio ein cyfreithiau ein hunain ac yn sicrhau mai ein llysoedd ni sy'n eu gorfodi.

Dim ond ein cytundeb ni sydd ar gael. Mae wedi'i lofnodi, wedi'i selio ac yn barod. Mae'n rhoi'r wlad gyfan ar ben ffordd i gael Cytundeb Masnach Rydd newydd â'r UE.  Bydd hon yn gydberthynas newydd sy'n seiliedig ar fasnach rydd a chydweithio cyfeillgar, nid ar gytundebau'r UE na chyfraith yr UE. Ni fydd unrhyw ymochredd gwleidyddol â'r UE. **Byddwn yn cadw'r DU allan o'r farchnad sengl, allan o unrhyw fath o undeb tollau, ac yn rhoi diwedd ar rôl Llys Cyfiawnder Ewrop.**

Bydd y gydberthynas newydd hon yn un sy'n ein galluogi i wneud y canlynol:

- **Cymryd rheolaeth o'n cyfreithiau unwaith eto.**
- **Cymryd rheolaeth o'n harian unwaith eto.**
- **Cymryd rheolaeth o'n polisi masnach ein hunain.**
- **Cyflwyno system fewnfudo seiliedig ar bwyntiau, fel yn Awstralia.**
- **Codi safonau mewn meysydd fel hawliau gweithwyr, lles anifeiliaid, amaethyddiaeth a'r amgylchedd.**
- **Sicrhau bod gennym reolaeth lwyr o'n dyfroedd pysgota.**

Byddwn yn negodi cytundeb masnach y flwyddyn nesaf – un sy'n atgyfnerthu ein Hundeb – ac **ni wnawn ymestyn y cyfnod gweithredu y tu hwnt i fis Rhagfyr 2020**. Yn ogystal, byddwn yn deddfu i sicrhau safonau uchel o ran hawliau gweithwyr, diogelu'r amgylchedd a hawliau defnyddwyr.

**Yr unig ffordd o gyflawni Brexit yw drwy gael mwyafrif Ceidwadol yn y Senedd.** Mae pleidlais dros unrhyw blaid neu ymgeisydd arall yn bleidlais dros Jeremy Corbyn – ac yn bleidlais dros fwy o gythrwfl.

Yn anad dim, dyma'r unig ffordd y gallwn fynd ati i drawsnewid Cymru a'r Deyrnas Unedig gyfan er gwell.


Mohamed Ali
Ymgeisydd Gogledd Caerdydd
Gweithiwr Ymgysylltu ag Ieuenctid

# Gwireddu Potensial Cymru

Dros y naw mlynedd ddiwethaf, mae'r Ceidwadwyr wedi bod yn cymoni annibendod Llafur. Oherwydd y penderfyniadau anodd a wnaed gan ein plaid a'n llwyddiant yn lleihau'r diffyg ariannol, mae'r economi wedi parhau i dyfu ac mae cyllid cyhoeddus wedi cael ei adfer. Diolch i bolisïau Ceidwadol, mae lefelau cyflogaeth bron ar eu huchaf erioed.

**Yng Nghymru, rydym wedi helpu degau o filoedd o bobl i mewn i waith, gan haneru'r gyfradd ddiweithdra ar yr un pryd. Rydym wedi dyblu'r lwfans personol i £12,500, gan olygu bod pob gweithiwr yn cael cadw mwy o'r hyn mae'n ei ennill. Rydym wedi codi'r Cyflog Byw Cenedlaethol – a byddwn yn ei godi ymhellach.**

Mae cryfder mantolen y DU – y gwaith caled a wneir gan bob un ohonom yn y wlad hon – yn golygu ein bod bellach mewn sefyllfa i fuddsoddi go iawn yn ein dyfodol.

Bydd Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt; mae angen i ni weld yr un lefel o uchelgais a gweledigaeth gan Lywodraeth Cymru.

Ers 20 mlynedd, mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi cael eu rhedeg gan Lywodraeth Lafur Cymru yng Nghaerdydd, ond mae wedi bod yn eu dinistrio, wrth i berfformiad ein GIG a'r system addysg yng Nghymru fynd ar ei hôl hi o gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Ledled Prydain byddwn yn helpu pobl a theuluoedd drwy gydol eu hoes, drwy leihau costau byw a sicrhau bod gwaith bob amser yn talu.

Byddwn yn cadw costau i lawr i fusnesau bach – yn hytrach na chodi eu trethi ac atal Prydain rhag ffynnu.

**Ni fyddwn yn benthyca i ariannu gwariant o ddydd i ddydd**, ond byddwn yn **buddsoddi mewn ffordd ofalus a chyfrifol mewn seilwaith** ledled ein gwlad er mwyn cynyddu cynhyrchiant a chyflogau. Mae ein rheolau cyllidol yn golygu **na fydd buddsoddiad net y sector cyhoeddus yn fwy na 3 y cant o CDG ar gyfartaledd**, ac **os bydd llog ar ddyledion yn cyrraedd 6 y cant o refeniw, byddwn yn ailasesu ein cynlluniau i gadw dyledion dan reolaeth.**

Mae hyn yn golygu y bydd **lefelau dyled yn is ar ddiwedd y Senedd** – yn hytrach **na mynd allan o reolaeth dan Lafur**. A byddwn yn defnyddio'r buddsoddiad hwn mewn modd darbodus a strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn cael chwarae teg, gan atgyfnerthu'r hyn sy'n ein cysylltu hefyd.

Byddwn hefyd yn **rhoi blaenoriaeth i'r amgylchedd** yn y Gyllideb nesaf, ac yn buddsoddi yn y seilwaith, y wyddoniaeth a'r ymchwil a wnaiff gyflawni twf economaidd, nid dim ond drwy'r 2020au, ond am ddegawdau i ddod.

Yn anad dim, byddwn yn gwrando ar y bobl sydd wedi teimlo eu bod wedi cael eu gadael ar ôl gan yr ychydig ddegawdau diwethaf o dwf economaidd ac sydd am gael mwy o reolaeth o'u dyfodol.

Byddwn yn cyflawni Brexit, fel y gallwn newid Prydain er gwell.


Amanda Jenner
Ymgeisydd Ceredigion
Athrawes gymwysedig

# Byddwn yn Canolbwyntio ar Eich Blaenoriaethau

Yn ystod ei fisoedd cyntaf, mae'r Prif Weinidog wedi dangos sut mae'n bwriadu gwneud bywyd yn well i bawb yng Nghymru. Cefnogi ein heddlu. Darparu'r lefelau uchaf erioed o gyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym wedi gwrando arnoch, ac rydym wedi gweithredu. Gweithredu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf, er mwyn i chi allu cael yr help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch drwy gydol eich oes. Ac rydym am fynd â'r agenda honno ymhellach.

Ond ni fydd dim yn digwydd heb lywodraeth Geidwadol fwyafrifol.

## Atgyfnerthu'r GIG a gofal cymdeithasol

**Mae'r GIG yn cynrychioli'r hyn sydd orau am y wlad hon. Mae yno i ni pan fydd ein plant yn cael eu geni, pan fydd ein ffrindiau a'n teuluoedd yn mynd yn sâl, pan fydd henaint ac afiechyd yn effeithio ar ein hanwyliaid.**

Mae'n hollbwysig i bob un ohonom – yn enwedig am ei fod am ddim pan y'i defnyddir ac mae yno i chi yn seiliedig ar angen, nid ar eich gallu i dalu.

Fel Ceidwadwyr rydym yn credu'n angerddol yn y GIG. Oherwydd rydym yn credu bod pawb yn haeddu'r cyfle i fyw heb salwch a chlefyd – ac i wybod, os byddant yn mynd yn sâl, y bydd ein meddygon a'n nyrsys arbennig yno iddynt.

O dan Lafur yng Nghymru dros yr ugain mlynedd ddiwethaf, mae perfformiad y GIG wedi mynd ar ei hôl hi o gymharu â rhannau eraill o'r DU ac mae wedi wynebu sgandal ar ôl sgandal. Nid yw Llywodraeth Lafur Cymru wedi llwyddo i wella byrddau iechyd sy'n methu ac mae cleifion wedi dioddef o ganlyniad i hynny.

Tra penderfynodd y Ceidwadwyr ddiogelu gwariant ar iechyd yn Lloegr, torrodd Llywodraeth Lafur Cymru, gyda chefnogaeth Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol, gyllid ar gyfer ein gwasanaeth iechyd.

Bydd Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yn diogelu dyfodol y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un peth i'n GIG yng Nghymru.

O fewn tri mis cyntaf ein tymor newydd, byddwn yn **diogelu yn y gyfraith ein**

**cynllun hirdymor ar gyfer y GIG, a ariennir yn llawn**, yn Lloegr. Dyma fydd y setliad arian parod mwyaf a hiraf yn hanes y GIG a bydd yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael mwy o gyllid nag erioed i ddatblygu'r gwasanaeth iechyd o flwyddyn i flwyddyn. Gall yr arian hwn gael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau rheng flaen fel eich bod chi a'ch teulu yn cael apwyntiadau yn gyflymach ac yn derbyn gofal gwell.

O dan y Ceidwadwyr, am bob £1 a gaiff ei gwario ar y GIG yn Lloegr, bydd Cymru yn derbyn £1.20 i'w wario ar y gwasanaeth iechyd yma. Erbyn diwedd y Senedd nesaf byddwn yn sicrhau bod degau o filiynau yn rhagor ar gael bob wythnos ar gyfer y GIG yma yng Nghymru. Bydd hyn yn cynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i GIG Cymru £1.9 biliwn rhwng 2018 a 2023.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn defnyddio'r cyllid hwn i gyflwyno Cynllun Gwella ac Atebolrwydd newydd ar gyfer y GIG.

## Ein Cynllun Gwella ac Atebolrwydd ar gyfer y GIG

**Bydd ein cyllid newydd yn:**

- **Recriwtio mwy o feddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill:** Cynyddu capasiti'r gweithlu er mwyn gwella mynediad at apwyntiadau a thriniaeth, a mynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio sydd wedi'i achosi gan flynyddoedd o waith cynllunio'r gweithlu gwael gan Lafur Cymru.

- **Adeiladu Canolfannau Diagnostig Cyflym newydd:** Sefydlu canolfannau diagnostig newydd yn y gogledd, y canolbarth a'r de er mwyn cyflymu mynediad at brofion diagnostig a lleihau'r angen am apwyntiadau mynych ac ymweliadau â'r ysbyty.

- **Ehangu mynediad at driniaethau newydd:** Lleihau biwrocratiaeth ddiangen fel bod meddygon yn gallu defnyddio'r triniaethau mwyaf datblygedig, sy'n achub bywydau, ar gyfer canser, clefydau anghyffredin, a chyflyrau eraill fel arthritis.

- **Trawsnewid iechyd meddwl:** Trin iechyd meddwl â'r un brys ag iechyd corfforol a deddfu i roi cymorth ychwanegol i bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.

- **Gwella gofal brys:** Adolygu amseroedd ymateb ambiwlansys a pherfformiad adrannau achosion brys er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad cyflym at ofal brys pan fo ei angen arnynt.

- **Blaenoriaethu iechyd y cyhoedd a gwaith ataliol:** Trawsnewid proses sgrinio'r GIG a defnyddio technoleg newydd i atal afiechyd. Datblygu strategaeth hirdymor ar gyfer cyflyrau sy'n gysylltiedig â ffyrdd o fyw fel gordewdra a chaethiwed. Bydd gennym system atgoffa am frechiadau genedlaethol ar gyfer pob meddygfa.

- **Mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd a buddsoddi mewn Cyrff Gwarchod Cleifion:** Bydd y system lle mai Gweinidogion Cymru sy'n penodi i fyrddau iechyd yn dod i ben a chyflwynir comisiynwyr iechyd etholedig. Byddwn yn diogelu annibyniaeth a chapasiti Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

- **Sicrhau bod GIG Cymru yn dysgu o'i gamgymeriadau:** Bydd dyletswydd ar holl staff y GIG i ddatgelu a chofnodi'r pethau sy'n mynd o chwith, gan gynnwys darparu manylion i uwch-reolwyr a hysbysu'r arolygiaeth gofal iechyd.

- **Dileu arweinyddiaeth wael y GIG:** Cyflwynir Cyngor Arwain GIG Cymru a bydd yn ofynnol i bob uwch-reolwr a swyddog gweithredol gofrestru ag ef. Bernir bod y sawl sy'n gyfrifol am fethiannau difrifol o fewn y GIG yn anghymwys, cânt eu dileu o'r gofrestr a'u hatal rhag gweithio yng ngwasanaeth iechyd Cymru.

- **Gwella diogelwch y GIG:** Caiff yr arolygiaeth gofal iechyd ei thrawsnewid yn llwyr er mwyn iddi fod yn gwbl

annibynnol ar Lywodraeth Cymru a chaiff bwerau newydd i ymyrryd yn gynt pan nodir problemau.

## Gwella gofal cymdeithasol

**Mae'n gred hanfodol, dosturiol gan y Ceidwadwyr y dylem ofalu am y rhai sydd mewn angen – helpu'r rheini na allant helpu eu hunain.**

Diolch i ddegawdau o dwf economaidd ac arloesedd gwyddonol, mae pobl yn byw bywydau hirach, iachach. Ond mae hyn, ynghyd â'r cynnydd mewn dementia a chyflyrau cronig eraill, yn golygu bod y pwysau ar system ofal yr henoed yn cynyddu o hyd. Hefyd, bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl o oedran gweithio ag anableddau sydd angen gofal yn iau.

Mae angen system arnom sy'n **sicrhau bod pawb yn cael yr urddas a'r diogelwch maent yn eu haeddu**. Mae hon yn her sylweddol a chymhleth ac, er mwyn gosod y sylfeini, mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer y seilwaith, twf y gweithlu ac integreiddio gofal iechyd sy'n ofynnol ar gyfer system ofal sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn penodi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i Gymru ac yn cefnogi'r rheini sy'n gofalu am eu hanwyliaid drwy warantu cymorth seibiant i'r rhai â chyfrifoldebau gofalu, ynghyd â chymorth ychwanegol ymarferol i'r to tawel o ofalwyr ifanc ledled Cymru drwy leihau'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Ond rydym hefyd am atal miliynau o bobl, a'u teuluoedd, rhag dioddef dirywiad araf oherwydd dementia. Byddwn yn sicrhau mai **dod o hyd i ffordd o'i wella yw un o gydflaenoriaethau mwyaf ein Llywodraeth** – un o'r 'heriau mawr' fydd yn diffinio ein dyfodol ynghyd ag effaith newid hinsawdd neu ddeallusrwydd artiffisial. Bydd hyn yn cynnwys **dyblu cyllid ymchwil i ddementia, dyblu cyllid Sefydliad Cenedlaethol Dementia, a chyflymu treialon** ar gyfer triniaethau newydd.

Byddwn hefyd yn **ymestyn yr hawl i absenoldeb i ofalwyr di-dâl**, y mae'r mwyafrif yn fenywod, ac yn sicrhau bod eu pensiwn wedi'i ddiogelu.

# Buddsoddi yn ein hysgolion

**Mae talent wedi'i rhannu'n gyfartal ledled Cymru. Nid felly cyfle. Fel Ceidwadwyr, credwn mewn cyfle cyfartal heb os – y syniad y dylai pob plentyn, ledled y wlad, gael chwarae teg. Dyma'r peth pwysicaf y gallwn ei wneud i wireddu potensial economaidd y DU, ond mae hefyd wrth wraidd cymdeithas deg a chyfiawn.**

O dan Lafur yng Nghymru, dros yr ugain mlynedd ddiwethaf, mae ein system addysg wedi dioddef. Yn ôl tabl cynghrair PISA rhyngwladol yr OECD, Cymru sydd â'r system addysg waethaf yn y Deyrnas Unedig a ni yw'r unig wlad yn y DU sydd yn hanner waelod y safleoedd byd-eang.

O dan y Ceidwadwyr, am bob £1 a gaiff ei gwario ar ysgolion yn Lloegr, mae Cymru yn cael £1.20 i'w wario ar ysgolion yma. Fodd bynnag, mae lefelau cyllid yng Nghymru wedi mynd ar ei hôl hi, ac mae'r undeb athrawon NASUWT yn amcangyfrif bod disgyblion yng Nghymru yn cael £645 yn llai ar gyfartaledd bob blwyddyn na'u cyd-ddisgyblion yn Lloegr.

Yn ystod ei fisoedd cyntaf yn y swydd, cyhoeddodd Boris Johnson £14 biliwn yn ychwanegol i ysgolion yn Lloegr. Bydd hyn yn arwain at swm sylweddol



# Dr James Davies
## Ymgeisydd Dyffryn Clwyd
## Meddyg teulu

## Disgyblaeth dda, safonau uchel, profiad cyfoethog:

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn caniatáu i ysgolion benderfynu sut i ddefnyddio'r arian ychwanegol rydym yn ei ddarparu. Hefyd byddem yn:

- **Cefnogi athrawon o ran disgyblaeth.** Byddem yn hyfforddi athrawon i reoli ymddygiad ac yn cefnogi athrawon i ddefnyddio gwaharddiadau, lle y bo'n briodol. Byddai Estyn yn cael mwy o gyllid ac amser i arolygu polisïau ymddygiad a diogelwch ysgolion. Byddem yn treialu arolygiadau dirybudd. Byddem yn helpu athrawon i drechu bwlïo, gan gynnwys bwlïo homoffobig.
- **Diogelu hawliau rhieni.** Parchu safbwyntiau rhieni o ran gwersi addysg rhyw.
- **Sicrhau bod disgyblion yn dysgu'r hanfodion.** Byddem yn dechrau monitro lefelau darllen a mathemateg mewn ysgolion cynradd.

## Plant agored i niwed

**Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o blant sy'n derbyn gofal yn y DU. Mae plant sydd mewn gofal yn aml yn ei chael hi'n anodd ymdopi fel oedolion, heb brofi yn rhy aml y cariad a'r sefydlogrwydd y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei gymryd yn ganiataol.**

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn rhoi blaenoriaeth i leoliadau sefydlog, cariadus i'r plant hynny – mabwysiadu lle bo modd neu rhieni maeth wedi'u recriwtio gan yr awdurdod lleol. Byddem yn adolygu'r system ofal er mwyn sicrhau bod pob lleoliad gofal yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar blant ac oedolion ifanc.

Byddem hefyd yn darparu Premiwm Disgyblion sy'n Derbyn Gofal er mwyn cefnogi plant mewn gofal i wireddu eu potensial llawn a gosod targedau i blant sy'n derbyn gofal sy'n cael addysg bellach ac addysg uwch.

uwch i Lywodraeth Cymru. Ar ben hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn £35 miliwn yn ychwanegol i gefnogi plant ag anghenion addysgol ychwanegol ac i roi Deddf Awtistiaeth i Gymru ar waith.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn defnyddio'r arian newydd hwn i ddileu'r bwlch cyllido rhwng disgyblion yng Nghymru a Lloegr fel bod pob plentyn yn cael y cyfle i ffynnu.

# Buddsoddi ym mhobl Cymru

**Bydd yr 2020au yn gweld swyddi yn trawsnewid. Bydd awtomeiddio a chyfrifiadureg yn newid y ffordd mae busnesau yn gweithredu. Mae ein cynllun i gyflwyno ynni glân a dyfodol carbon niwtral yn golygu mathau newydd o swyddi mewn diwydiannau newydd. A thrwy ymadael â'r Undeb Ewropeaidd gallwn deilwra ein rheoliadau er mwyn sicrhau mai ni yw'r cyntaf i ddatblygu technolegau'r dyfodol ac elwa arnynt.**

Er mwyn gwneud hyn mae angen diwygio ein system hyfforddiant – er mwyn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus, busnesau presennol a busnesau'r dyfodol. Ond yn anad dim, er mwyn sicrhau bod gweithwyr Cymru yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ffynnu – a bod holl ddinasyddion y wlad hon yn cael y cyfle i ddangos eu doniau'n llawn.

## Addysg dechnegol a dysgu gydol oes

**Mae'r brifysgol yn cynnig profiad ac addysg arbennig, ond nid yw mwy na dwy ran o dair o bobl ifanc yn ei mynychu ac mae eu haddysg a'u profiadau nhw yr un mor bwysig.**

Rydym am i fwy o bobl ifanc gael dewis ennill cymwysterau technegol a chwblhau prentisiaethau. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn cyflwyno'r canlynol:

- **Mwy o gyllid ar gyfer prentisiaethau hynod fedrus yng Nghymru,** gan gynnwys prentisiaethau gradd. Disgwyliwn i hyn gynyddu'r niferoedd ddegau o filoedd i gyflogwyr bach a mawr fel ei gilydd – a byddwn yn sicrhau bod y system yn gweithio i bob cyflogwr.
- **Prentisiaethau ar gyfer pob prosiect seilwaith newydd mawr** – gan gynnwys ysbytai newydd, ysgolion newydd, ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd.

Byddem hefyd yn buddsoddi £20 miliwn mewn Addysg Bellach, yn uwchraddio ein colegau AB ac yn **datblygu Athrofa Dechnoleg sy'n canolbwyntio ar STEM yn y gogledd** sy'n cysylltu addysgu o ansawdd uchel â busnes a diwydiant.

Byddem yn creu **lwfans dysgu i oedolion** i'w ddefnyddio ar radd, hyfforddiant technegol, neu gyrsiau penodol. Gallai hyn hefyd gael ei gysylltu â chymorth cyflogwyr drwy'r lefi prentisiaethau.

Bydd ymadael â'r UE hefyd yn golygu y gallwn gymryd rheolaeth o'r arian a oedd yn mynd drwy ei Gronfeydd Strwythurol unwaith eto. Rydym eisoes wedi cyhoeddi Cronfa Ffyniant a Rennir ar gyfer y DU, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ran o'r DU ar ei cholled pan na fydd cyllid yr UE ar gael mwyach (a oedd, wrth gwrs, ond yn rhan fechan o'r biliynau o bunnoedd roeddem yn ei gyfrannu), ac i gyflwyno rhaglen decach, sy'n fwy addas i'n heconomi, yn lle rhaglen yr UE. A byddwn yn sicrhau bod **£500 miliwn o Gronfa Ffyniant a Rennir y DU** yn cael ei ddefnyddio i helpu pobl ddifreintiedig ledled y Deyrnas Unedig i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn llwyddo mewn bywyd.

## Prifysgolion

**Mae gan Gymru brifysgolion o'r radd flaenaf sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'n heconomi. Er mwyn diogelu a gwella eu henw da byddwn yn ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â phroblem chwyddo graddau a chyrsiau o ansawdd isel ac yn gwella'r system gwneud cais a chynnig i israddedigion. Yn sail i hyn fydd ymrwymiad i degwch, ansawdd dysgu ac addysgu, a mynediad.**

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn **adolygu cymorth myfyrwyr gyda'r nod o leihau baich dyled ffioedd dysgu i**

**fyfyrwyr o Gymru** gan ddiogelu incwm prifysgolion Cymru drwy grantiau uniongyrchol a chynnydd mewn cyllid ar gyfer ymchwil.

Byddem hefyd yn **atgyfnerthu rhyddid academaidd a'r rhyddid i leisio barn** mewn prifysgolion, ac yn parhau i ganolbwyntio ar godi safonau.

# Cefnogi teuluoedd sy'n gweithio

**Ers 2010, mae'r Ceidwadwyr wedi helpu mwy na 1,000 o bobl y dydd ar gyfartaledd i mewn i waith.**

Mae hwnnw'n ffigur rhyfeddol. Ac mae ond wedi bod yn bosibl oherwydd yr economi gref rydym wedi helpu i'w chreu; ein cefnogaeth i fusnesau; a'n diwygiadau lles, sydd wedi annog mwy o bobl i mewn i waith.

Ni waeth pwy ydych, rydym am ei gwneud hi'n haws i chi gael swydd dda a gwerth chweil – a gallu cyfuno gyrfa gwerth chweil â magu teulu neu ofalu am berthnasau oedrannus neu anabl, yn hytrach na gorfod rhoi un o flaen y llall. Rydym am sicrhau eich bod yn cael cadw mwy o'r arian rydych yn ei ennill, a'n bod yn cadw eich biliau'n isel. Ac rydym am sicrhau bod y rheini na allant weithio, neu sydd wedi ymddeol, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Dros y degawd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod gwaith bob amser yn talu – yn enwedig i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym wedi codi'r isafswm cyflog yn sylweddol ac wedi cyflwyno a chodi'n gyson y Cyflog Byw Cenedlaethol. Rydym wedi dyblu'r lwfans personol i £12,500, fel bod pawb yn cael ennill swm teilwng cyn eu trethu. Ac rydym wedi sicrhau bod pensiwn y wladwriaeth yn adlewyrchu enillion.

Yn ystod ein misoedd cyntaf, gwnaethom gyhoeddi **cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol i ddwy ran o dair o enillion cyfartalog, sef £10.50 yr awr yn ôl y rhagamcanion presennol, a gwnaethom ei ehangu i bawb dros 21 oed**. Mae hynny'n golygu **codiad cyflog cyfartalog o £4,000 y flwyddyn i 4 miliwn o bobl erbyn 2024.**

Er mwyn helpu pobl ifanc i gael gwaith, gwnaethom **ddileu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr i bobl ifanc o dan 21 oed a phrentisiaid o dan 25 oed**.

Mae creu miliynau yn rhagor o swyddi yn un o brif gyflawniadau'r Ceidwadwyr. Gallai Llywodraeth Lafur sy'n ei gwneud hi'n anos i fusnesau dyfu a chyflogi – sy'n galluogi pobl i fynd yn ddibynnol yn hytrach na'u hannog i weithio ac ennill – ddileu'r holl gynnydd hwn.

Bydd Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol yn cyflwyno pecyn mawr o fesurau sydd wedi'i gynllunio i sicrhau ei bod hi bob amser yn talu i weithio, gan wneud popeth y gallwn i ddiogelu a chefnogi'r rhai na allant – a mynd i'r afael â'r pwysau o ran costau byw y mae pob un ohonom yn eu hwynebu.

- **Rydym yn addo na wnawn godi cyfraddau treth incwm, Yswiriant Gwladol na TAW**. Bydd y warant treth hon yn diogelu incymau teuluoedd sy'n gweithio'n galed yn ystod oes y Senedd nesaf.

- **Rydym am dorri trethi hefyd, nid dim ond eu rhewi.** Byddwn yn **codi trothwy Yswiriant Gwladol i £9,500 y flwyddyn** – gan gynrychioli **gostyngiad treth i 31 miliwn o weithwyr.** Ein prif uchelgais yw sicrhau bod **y £12,500 cyntaf rydych yn ei ennill yn gwbl ddi-dreth** – a fyddai'n **rhoi bron £500 ym mhocedi pobl bob blwyddyn**.

- Magu teulu ddylai fod y profiad mwyaf boddhaus yn eich bywyd. Ond i ormod o rieni, mae costau gofal plant yn faich trwm. Rydym am i rieni gael y rhyddid, y gefnogaeth a'r dewis i ofalu am eu plant yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn **ariannu mwy o ofal plant o ansawdd uchel** cyn ac ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau fel nad oes angen i rieni sy'n gweithio ddewis rhwng eu gyrfaoedd a'u plant.

- I lawer o deuluoedd, mae costau ynni yn peri llawer o bwysau ariannol. Byddwn

yn **cadw ein cap ynni presennol ac yn cyflwyno mesurau newydd i leihau biliau.** Byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwerau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd er mwyn mynd i'r afael ag achosion o dwyllo defnyddwyr ac arferion busnes gwael.

- Pan ddaethant i rym yn 2010, cymerodd y Ceidwadwyr gamau cadarn i ddiogelu pensiynwyr y DU. Mae'r 'clo triphlyg' a gyflwynwyd gennym wedi golygu bod y rheini sydd wedi gweithio'n galed a chyfrannu am ddegawdau yn gallu bod yn hyderus y bydd y wladwriaeth yno i'w cefnogi pan fo ei angen arnynt. Byddwn yn **parhau â'r clo triphlyg, y taliad tanwydd gaeaf, a buddiannau eraill i bensiynwyr**, gan sicrhau bod pobl hŷn yn cael y sicrwydd a'r urddas maent yn eu haeddu. Cydnabyddwn werth **trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed a chredwn y dylent gael eu hariannu gan y BBC**. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig hefyd yn parhau i gynnig cerdyn bws i bobl hŷn.

- Mae nifer o weithwyr, a menywod i raddau anghymesur, sy'n ennill rhwng £10,000 a £12,500 wedi bod yn colli allan ar fudd-daliadau pensiwn oherwydd bwlch sy'n effeithio ar bobl â chynlluniau pensiwn cyflog net. **Byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr er mwyn gweld sut y gellir datrys hyn.**




POLICE
POLICE

- Byddwn yn defnyddio ein rhyddid o'r UE i wella system dreth y DU – nid lleiaf drwy **ddiddymu'r dreth ar damponau**.

- Fel Ceidwadwyr credwn y dylai pawb sy'n gallu gweithio weithio – ac y dylai bob amser dalu iddynt wneud hynny. Ond credwn hefyd y dylai'r rheini na allant weithio gael yr help sydd ei angen arnynt. Dyna pam y byddwn yn parhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol, sy'n cyfuno sawl budd-dal yn un wrth greu llwybr cliriach o fudd-daliadau i waith. Rydym eisoes wedi gweithredu i gynyddu lwfansau gwaith, sy'n werth £630 i deuluoedd sy'n gweithio â phlant a'r rhai ag anableddau, a byddwn yn **gwneud mwy i sicrhau bod Credyd Cynhwysol yn gweithio i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed.** Byddwn hefyd yn **rhoi'r gorau i rewi budd-daliadau,** a **sicrhau ei bod hi'n talu i weithio mwy o oriau**.

- Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau bod y **rhai sy'n twyllo'r system drwy gyflawni twyll budd-daliadau** yn cael eu cosbi. Nid oes esgus dros gamfanteisio ar eraill sydd wedi gweithio'n galed a thalu i mewn.

- Er mwyn helpu'r rheini sy'n gofalu am aelodau o'r teulu, yn enwedig menywod, byddwn yn cefnogi'r **prif ofalwr ar unrhyw aelwyd sy'n derbyn y taliad Credyd Cynhwysol**. A byddwn yn parhau i ymdrechu i **leihau tlodi, gan gynnwys tlodi plant**, drwy'r system drethi a budd-daliadau. Dylai plant dyfu i fyny mewn amgylchedd lle na chyfyngir ar eu potensial – sy'n un o'r rhesymau ein bod yn rhoi blaenoriaeth i roi mwy o arian ym mhocedi gweithwyr incwm isel. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn parhau i gynnig prydau ysgol am ddim.

- Byddwn hefyd yn **ymestyn yr hawl i absenoldeb i ofalwyr di-dâl**, y mae'r mwyafrif yn fenywod, ac yn sicrhau bod eu pensiwn wedi'i ddiogelu.

- Fel rhan o'n hymdrechion i gefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed, byddwn yn cymryd mesurau i **rymuso a chefnogi pobl anabl**. Yn arbennig byddwn yn **lleihau nifer yr ailasesiadau** y mae'n rhaid i berson anabl eu cael pan nad yw'n debygol y bydd newid mawr mewn cyflwr – oherwydd ni ddylech orfod profi eich anabledd dro ar ôl tro. Byddwn yn cyhoeddi **Strategaeth Gyffredinol i Bobl Anabl** cyn diwedd 2020. Bydd hon yn edrych ar y system budd-daliadau, ond hefyd yn gwella cyfleoedd a chymorth a mynediad i bobl anabl o ran tai, addysg, trafnidiaeth a swyddi. Byddwn yn lleihau'r bwlch cyflogaeth mewn perthynas â phobl anabl.

## Gwneud Cymru yn fwy diogel

**Ein prif ddyletswydd fel Llywodraeth yw cadw ein gwlad yn ddiogel. Un o addewidion cyntaf Boris Johnson fel Prif Weinidog oedd dechrau recriwtio 20,000 o heddweision newydd, ac mae dros 300 ohonynt eisoes yn cael eu recriwtio gan y pedwar heddlu yng Nghymru. Bydd yr heddweision newydd hyn yn cymryd troseddwyr treisgar oddi ar y stryd ac yn ein diogelu ni a'n gwlad.**

Bydd y Ceidwadwyr bob amser yn cefnogi'r dynion a'r menywod dewr sy'n gweithio i'n heddlu a'n gwasanaethau diogelwch, a dyna pam y gwnawn rymuso'r heddlu, gan gefnogi'r defnydd **cynyddol o stopio a chwilio** ar yr amod bod hynny'n deg ac yn gymesur. A byddwn yn darparu'r cyfarpar sydd ei angen arnynt.

Mae angen system gyfiawnder deg arnom – un sydd o blaid y mwyafrif sy'n ufuddhau i'r gyfraith, nid y lleiafrif sy'n ei thorri, ac sy'n rhoi ail gyfle i'r rheini sydd wedi bwrw eu dedfryd ac sydd am gael dechrau newydd.




**Er mwyn llwyddo i gadw ein strydoedd yn ddiogel, mae hefyd angen i ni ddarbwyllo pobl i beidio â throseddu a rhoi'r gorau i aildroseddu dro ar ôl tro:**

## Troseddwyr Ifanc

Mae pobl ifanc yn llai tebygol o fod mewn trwbwl mewn ysgol ddisgybledig, a dyna pam y byddwn yn **cefnogi athrawon i orfodi disgyblaeth**. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn buddsoddi mewn **gwasanaethau ieuenctid** i bobl ifanc. Os byddant yn peryglu eraill, byddwn yn rhoi pobl ifanc mewn ysgolion **darpariaeth amgen** newydd. Os byddant yn droseddwyr, rydym yn treialu **Ysgolion Diogel**. Bydd cyfreithiau newydd yn gofyn i ysgolion, yr heddlu, cynghorau ac awdurdodau iechyd gydweithio drwy Unedau Trais Difrifol er mwyn atal troseddau difrifol.

## Caethiwed

Mae bod yn gaeth i gyffuriau yn esgor ar drosedd a thrais, ac yn chwalu teuluoedd – ac mae sylweddau peryglus newydd yn gyfrifol am gynyddu nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau. Byddwn yn mynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn buddsoddi mewn gwella gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau a sylweddau er mwyn gwella triniaethau a helpu i atal troseddau sy'n gysylltiedig â chaethiwed.

## Adsefydlu

Byddwn yn creu **gwasanaeth addysg i garcharorion** sy'n canolbwyntio ar sgiliau a hyfforddiant seiliedig ar waith. Byddwn yn gwella cyfleoedd cyflogaeth cyn-droseddwyr, gan gynnwys hyfforddwr swyddi ym mhob carchar. Profwyd bod hyn yn lleihau aildroseddu. Rydym yn gwella diogelwch carchardai er mwyn diogelu staff, atal cyffuriau rhag cael eu smyglo i mewn a lleihau trais.

## Ein cynllun i leihau troseddu

- **Byddwn yn cefnogi ein heddlu** drwy sicrhau bod gan heddweision y pwerau a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i'w cadw nhw eu hunain, a phob un ohonom ni, yn ddiogel, gan gynnwys **taserau a chamerâu corff**. Byddwn yn sicrhau bod **Cyfamod yr Heddlu yn dod yn gyfraith** er mwyn i'r heddlu gael y gefnogaeth sydd ei hangen arno.

- Caiff yr heddlu ei rymuso gan orchymyn llys newydd i dargedu'r unigolion hynny y gwyddys eu bod yn cario cyllyll, gan ei gwneud hi'n **haws i heddweision stopio a chwilio'r rhai a gafwyd yn euog o gyflawni troseddau yn ymwneud â chyllyll**. Bydd unrhyw un sy'n cario cyllell yn **ymddangos gerbron y llys ymhen dyddiau nid wythnosau. Dylai'r rhai sy'n defnyddio cyllell fel arf fynd i'r carchar**.

- **Byddwn yn cyflwyno dedfrydau llymach i'r troseddwyr gwaethaf ac yn rhoi terfyn ar yr arfer o ryddhau rhywun o'r carchar yn awtomatig hanner ffordd am droseddau difrifol**. Yn achos llofruddwyr plant, cânt **garchar am oes heb barôl.**

- **Byddwn yn defnyddio ein rhyddid newydd ar ôl Brexit i atal mwy o droseddwyr sy'n wladolion tramor rhag dod i mewn i'r wlad.** Byddwn yn **torri nifer y gwladolion tramor yn ein**

**carchardai**, ac yn cynyddu cosbau er mwyn eu hatal rhag dychwelyd.

- **Byddwn yn cefnogi pawb sy'n peryglu eu bywydau er mwyn ein diogelu – heddweision, swyddogion carchardai a gweithwyr y gwasanaethau brys**. Byddwn yn pasio Bil Diogelu'r Heddlu ac yn ymgynghori ar ddyblu'r ddedfryd fwyaf am ymosod ar weithwyr gwasanaethau brys fel heddweision, diffoddwyr tân a pharafeddygon.

- **Byddwn yn atgyfnerthu atebolrwydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu etholedig ac yn ymestyn eu rôl.** Rhaid bod gan bobl arweinydd lleol atebol sy'n cyflawni eu blaenoriaethau o ran trosedd a chyfiawnder, ac y gallant ei ethol allan.

- **Byddwn yn ehangu'r system tagio electronig** ar gyfer troseddwyr sy'n bwrw eu dedfryd y tu allan i'r carchar, gan gynnwys defnyddio tagiau sobrwydd i'r rhai sy'n troseddu dan ddylanwad alcohol.

- **Byddwn yn gwneud dedfrydau cymunedol yn llymach,** er enghraifft drwy dynhau gorchmynion cyrffyw a gwneud i'r rhai a gaiff eu heuogfarnu wneud mwy o oriau o wneud iawn i'r gymuned i lanhau ein parciau a'n strydoedd.

- **Byddwn yn defnyddio technolegau newydd ac yn lleihau troseddu ar-lein.** Byddwn yn creu **heddlu seiberdroseddu cenedlaethol newydd**, ac yn grymuso'r heddlu i **ddefnyddio technolegau newydd yn ddiogel**, fel biometreg a deallusrwydd artiffisial, ynghyd â'r defnydd o DNA, o fewn fframwaith cyfreithiol llym. Byddwn hefyd yn **creu Labordy Troseddau Cenedlaethol o'r radd flaenaf**.

- **Byddwn yn atal bygythiad cynyddol troseddau difrifol a chyfundrefnol.** Byddwn yn **atgyfnerthu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol** fel y gall fynd i'r afael â'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu, o dwyll, gangiau llinellau cyffuriau a cham-drin plant yn rhywiol, i wneud arian anghyfreithlon, caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl.

- **Byddwn yn ychwanegu 10,000 yn rhagor o lefydd mewn carchardai**, ac rydym eisoes wedi ymrwymo £2.75 biliwn i adnewyddu a chreu carchardai modern.

- **Byddwn yn cynnal adolygiad gwraidd a brig o'r system barôl** er mwyn gwella atebolrwydd a diogelwch y cyhoedd, gan roi'r hawl i ddioddefwyr fynychu gwrandawiadau am y tro cyntaf, a byddwn yn sefydlu **Comisiwn Brenhinol ar y broses cyfiawnder troseddol**.

- **Byddwn yn trechu eithafiaeth**, ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau na fydd **eithafwyr byth yn cael arian cyhoeddus**.

- **Byddwn yn cadw ein gwlad yn ddiogel rhag terfysgaeth.** Byddwn yn **buddsoddi yn yr heddlu a'r gwasanaethau diogelwch ac yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen arnynt** i fynd i'r afael â bygythiadau newydd. Yn sgil y digwyddiadau erchyll ym Manceinion yn 2017, byddwn yn **gwella diogelwch a diogeledd lleoliadau cyhoeddus**.

- **Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â gwersylloedd teithwyr sydd heb eu hawdurdodi**. Byddwn yn rhoi pwerau newydd i'r heddlu arestio tresmaswyr, ac atafaelu eu heiddo a'u cerbydau, lle byddant yn creu gwersylloedd sydd heb eu hawdurdodi, er mwyn diogelu ein cymunedau. Byddwn yn ei gwneud hi'n **drosedd tresmasu'n fwriadol**, a bydd Llywodraeth Geidwadol Gymreig hefyd yn rhoi mwy o bwerau i gynghorau o fewn y system gynllunio.

- **Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn parhau i wrthwynebu cynlluniau Llafur, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol i ymestyn hawliau pleidleisio i garcharorion**. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i wahardd carcharorion rhag pleidleisio yng Nghymru a Lloegr.

## Cefnogi pawb sy'n dioddef trosedd

**Mae a wnelo sicrhau cyfiawnder â mwy na dim ond trin diffynyddion yn deg; mae'n golygu gwneud yn iawn â dioddefwyr. Felly, byddwn yn pasio ac yn gweithredu Cyfraith Dioddefwyr sy'n sicrhau hawliau dioddefwyr a'r lefel o gymorth y gallant ei ddisgwyl.**

- **Byddwn yn cefnogi holl ddioddefwyr cam-drin domestig** ac yn pasio'r Bil Cam-drin Domestig. Byddwn yn **cynyddu'r cymorth sydd ar gael i lochesi a chymorth yn y gymuned i ddioddefwyr achosion o dreisio a cham-drin rhywiol**. Byddwn yn **treialu llysoedd cam-drin domestig integredig** sy'n mynd i'r afael â materion troseddol a theuluol ar y cyd.

- **Byddwn yn parhau i frwydro troseddu yn erbyn menywod a merched**, gan gynnwys achosion o dreisio, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a phriodi dan orfod. Bydd y cymorth a rown i'r prif ofalwr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn helpu i roi mwy o annibyniaeth i unigolion, menywod gan amlaf, sydd wedi'u dal mewn perthynas â phartneriaid sy'n eu rheoli dan orfodaeth.

- **Byddwn yn diogelu pobl rhag ymosodiadau corfforol neu aflonyddu** boed hynny oherwydd eu rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, crefydd neu anabledd, ac yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i fannau addoli ac yn eu diogelu. Byddwn yn **mynd ati i drechu achosion o aflonyddu a thrais** yn erbyn pob grŵp crefyddol, ac yn erbyn pobl LGBT. Byddwn yn sicrhau bod y **rhai sy'n gweithio i drechu eithafiaeth yn cael eu diogelu** rhag bygythiadau a bygylu. Byddwn yn **gwahardd cyrff cyhoeddus rhag mynd ati'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i foicotio**, datfuddsoddi neu sancsiynu gwledydd tramor. Mae'r rhain yn tanseilio cydlyniant cymunedol.

- **Byddwn yn deddfu i sicrhau mai'r DU yw'r man mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein** – gan ddiogelu plant rhag cam-drin a niwed ar-lein, diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed rhag cael gafael ar gynnwys niweidiol, a sicrhau nad oes unrhyw fan diogel i derfysgwyr guddio ar-lein – ond ar yr un pryd amddiffyn yr hawl i fynegi barn ac yn arbennig gydnabod ac amddiffyn rôl amhrisiadwy gwasg rydd. Hefyd, o ystyried y ffordd mae'r byd ar-lein yn symud, mae'r Ddeddf Hapchwarae yn dod yn gyfraith analog fwyfwy mewn oes ddigidol. Byddwn yn ei hadolygu, gan dalu sylw penodol i **fynd i'r afael â materion blychau lŵt a chamddefnyddio cardiau credyd**.

# Trwsio ein system fewnfudo

**Roedd y bleidlais dros ymadael â'r UE yn bleidlais, ymhlith pethau eraill, dros reoli ein ffiniau unwaith eto.**

Dyna pam y bydd Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol yn cyflawni Brexit, ac yna'n cyflwyno **system fewnfudo seiliedig ar bwyntiau, fel y gwelir yn Awstralia, sy'n gadarnach ac yn decach**, fel y gallwn benderfynu pwy sy'n dod i'r wlad hon ar sail y sgiliau sydd ganddynt a'r cyfraniad y gallant ei wneud – nid o ble maent yn dod. **Bydd mudwyr yn cyfrannu at y GIG – ac yn talu i mewn cyn y gallant gael budd-daliadau.**

Mae ein system newydd yn rhoi rheolaeth wirioneddol i ni dros bwy sy'n mynd a dod. Mae'n ein galluogi i **ddenu'r bobl orau a mwyaf dawnus o bob cwr o'r byd.**

Dim ond drwy **sefydlu rheolaethau mewnfudo a rhoi diwedd ar symud yn rhydd** y gallwn ddenu'r gweithwyr hynod fedrus sydd eu hangen arnom i gyfrannu



**Sajid Javid**
Ymgeisydd Bromsgrove
Canghellor y Trysorlys

**Priti Patel**
Ymgeisydd Witham
Ysgrifennydd Cartref

# Ein system bwyntiau, yn seiliedig ar system Awstralia

**Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r bobl ganlynol:**

- Pobl sydd â sgiliau Cymraeg a/neu Saesneg da
- Pobl sydd wedi parchu'r gyfraith yn eu gwledydd eu hunain
- Pobl sydd ag addysg a chymwysterau da

Bydd angen bod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n dod i mewn i'r wlad wedi cael **cynnig swydd clir.** Hefyd:

- **Ni fyddwn yn caniatáu i droseddwyr difrifol ddod i mewn i'r wlad**. Os bydd pobl yn cymryd mantais o'r croeso a gânt, byddant yn gorfod gadael cyn gynted â phosibl.
- **Byddwn yn monitro pwy sy'n cyrraedd ac yn gadael ein gwlad**.
- **Byddwn yn trawsnewid y system fewnfudo bresennol, ac yn ei gwneud hi'n fwy teg a thosturiol** – roedd yr hyn a ddigwyddodd i genhedlaeth Windrush yn erchyll, a byddwn yn sicrhau na fydd byth yn digwydd eto. Rydym yn ymrwymedig i gynllun iawndal Windrush.
- Byddwn yn trin dinasyddion yr UE a dinasyddion eraill yn gyfartal. Ni waeth p'un a ydynt yn dod o Ewrop neu ran arall o'r byd, byddwn yn croesawu pobl sy'n bodloni ein meini prawf.
- **Rydym am i ddinasyddion yr UE a ddaeth i fyw yn y DU cyn Brexit aros** – ac rydym yn llwyr ymrwymedig i ddiogelu eu hawliau presennol a sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan bwysig o'n gwlad a'n cymuned ar ôl Brexit a'u bod yn cael eu croesawu. Dyna pam y gwnaethom gyflwyno'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

at ein heconomi, ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus. Bydd **llai o fudwyr â lefel isel o sgiliau** a **bydd y niferoedd cyffredinol yn lleihau**. A byddwn yn sicrhau bod **pobl Prydain bob amser mewn rheolaeth**.

## Denu'r bobl orau a mwyaf dawnus

**Rydym am i'r DU ddenu'r bobl orau a mwyaf dawnus, gan gyflwyno llwybrau mewnfudo arbennig i'r rhai a wnaiff y cyfraniad mwyaf. Byddwn yn creu cynlluniau fisa pwrpasol i fudwyr newydd a fydd yn llenwi bylchau yn ein gwasanaethau cyhoeddus, yn datblygu cwmnïau a syniadau arloesol y dyfodol, ac o fudd i Brydain am flynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- **Fisa'r GIG.** Caiff meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd cymwysedig sydd wedi cael cynnig swydd gan y GIG, sydd wedi'u hyfforddi i safon gydnabyddedig, ac sydd â lefel ddigonol o Gymraeg a/neu Saesneg, fynediad llwybr carlam, ffioedd fisa is a chymorth dynodedig i ddod i'r DU gyda'u teuluoedd.

- Mynd ati i recriwtio **arweinwyr yn eu maes** i ddod i'r DU. Caiff y nifer bach o'r graddedigion technoleg a gwyddoniaeth gorau o'r prifysgolion gorau yn y byd a'r rhai sy'n ennill gwobrau gwyddonol mawr gynnig mynediad llwybr carlam i'r DU – gall y bobl hyn wneud mwy nag unrhyw un arall i lywio cynnydd gwyddonol a helpu ein GIG a'n heconomi.

- Bydd ein **fisa myfyrwyr** yn helpu prifysgolion i ddenu pobl ifanc ddawnus ac yn eu galluogi i aros i wneud cais am swyddi yma ar ôl iddynt raddio.

- Bydd ein **fisa dechrau busnes**, ynghyd â'n rheolau newydd ar gyfer y rheini â dawn eithriadol, yn sicrhau ein bod yn gallu denu entrepreneuriaid y dyfodol sydd am ddechrau busnesau gwych yma yn y DU.

## Integreiddio a bod yn agored

**Rydym am i'n plaid, a'n Llywodraeth, gynrychioli Prydain fodern – gwlad amrywiol a goddefol sydd â hyder yn ei hunaniaeth a'i gwerthoedd ei hun. Credwn fod y credoau bythol sy'n ein huno yn llawer pwysicach na'n gwahaniaethau.**

Mae mewnfudo wedi cyfoethogi ein cymdeithas a byddwn bob amser yn cydnabod cyfraniad y rheini sydd wedi helpu i adeiladu ein busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, diwylliant a chymunedau.

Byddwn yn sicrhau **ni waeth o ble yn y**

**byd rydych chi neu eich teulu yn dod, y caiff eich hawliau eu parchu ac y cewch eich trin yn deg a gydag urddas**.

**Byddwn yn trechu rhagfarn, hiliaeth a gwahaniaethu** ac yn gwneud mwy i fynd i'r afael â'r rhesymau cymhleth pam nad yw rhai grwpiau yn gwneud cystal yn yr ysgol, yn ennill llai yn y gwaith, neu'n fwy tebygol o ddioddef trosedd. Byddwn yn gweithredu i wella bywydau pawb ac yn gwrthod gwleidyddiaeth o ymrannu. Ein blaenoriaeth yw canolbwyntio ar atebion ymarferol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

- **Byddwn yn rhoi hwb i ddysgu Cymraeg a Saesneg** er mwyn grymuso mudwyr presennol a helpu i hyrwyddo integreiddio mewn cymdeithas.
- Byddwn yn gwella **ansawdd tystiolaeth a data** o fewn y Llywodraeth ar y mathau o rwystrau mae grwpiau gwahanol yn eu hwynebu, gan sicrhau bod tegwch wrth wraidd popeth a wnawn.
- Byddwn yn **parhau i roi lloches a chymorth i ffoaduriaid sy'n dianc rhag cael eu herlid**, gyda'r nod o'u helpu i ddychwelyd adref os yw'n ddiogel gwneud hynny yn y pen draw.
- Byddwn yn **hyrwyddo rhyddid i fynegi barn a goddefiant**, yn y DU a thu hwnt.
- Byddwn yn sicrhau bod cyfraniad hanesyddol grwpiau mudol yn cael ei gydnabod. Byddwn yn parhau i gefnogi **cofeb sy'n cydnabod cyfraniad Cenhedlaeth Windrush** mewn man amlwg yn Llundain.

## Cyfrannu at ein gwlad

**Mae'n bwynt sylfaenol o ran egwyddor – ac yn gyfiawnder naturiol – na ddylech allu hau cyn medi. Wrth gwrs dylem helpu'r rheini ag angen gwirioneddol – yn enwedig y rhai sydd wedi dianc rhag cael eu herlid. Ond ar yr un pryd, mae'n deg ac yn briodol, fel mewn gwledydd eraill, y dylai pobl sy'n galw'r DU yn gartref iddynt dalu eu trethi am gyfnod rhesymol o amser cyn y gallant hawlio budd-daliadau. Bydd ein system fewnfudo newydd yn golygu:**

- Bydd pobl sy'n dod i mewn i'r wlad o'r UE **ond yn gallu cael budd-daliadau diweithdra, tai a phlant ar ôl pum mlynedd**, fel sy'n wir am fudwyr nad ydynt yn rhan o'r AEE ar hyn o bryd.
- **Ni fyddwn mwyach yn caniatáu i bobl hawlio budd-dal plant i blant sy'n byw dramor**.
- **Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i newydd-ddyfodiaid gyfrannu at gyllid y GIG** a byddwn yn cynyddu'r gordal iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn cwmpasu cost lawn ei ddefnyddio. Byddwn hefyd yn gorfodi taliadau ar y rhai sy'n dod i'n gwlad ac yn defnyddio ein gwasanaethau iechyd heb gyfrannu, gan **ddyblu cyllideb ein huned gorfodi twristiaeth iechyd**. Byddwn yn parhau i gynnig gofal brys am ddim i unrhyw un sydd ei angen.
- Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn newid y system gynllunio yng Nghymru er mwyn **sicrhau bod llefydd newydd ar gael mewn meddygfeydd ac ysgolion yn gyntaf gyda datblygiadau tai newydd**, a byddwn yn buddsoddi mewn sgiliau technegol a chymhellion gwaith fel bod gweithwyr o Gymru yn cael cynifer o swyddi â phosibl.

Mae'r pecyn hwn o fesurau yn deg, yn gadarn ac yn dosturiol – sy'n sicrhau bod y system fewnfudo, ar ôl cynifer o flynyddoedd, yn unol ag ymdeimlad pobl Prydain eu hunain o'r hyn sy'n iawn. Ond ni allwn wneud dim heb lywodraeth Geidwadol gref a all gyflawni Brexit.



# Byddwn yn Gwireddu Potensial Cymru

Drwy gyflawni Brexit gallwn ganolbwyntio ar sicrhau mai dyma'r man gorau posibl i fyw a gweithio ynddo – defnyddio ein rhyddid wedi Brexit i greu ffyniant ac atgyfnerthu pob rhan o'r wlad, gan gadw'r ddysgl yn wastad.

Oherwydd nid dim ond gwireddu potensial Cymru rydym am ei wneud; rydym hefyd am wireddu potensial pobl Cymru a Phrydain.

**Mae ein cynllun yn golygu sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf, eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y stryd, bod teuluoedd sy'n gweithio yn cael cadw mwy o'u harian, a'n bod yn helpu gyda phwysau costau byw.**

Ond mae hefyd yn golygu sicrhau ein bod yn rhannu ffyniant ledled y DU, gan fynd i'r afael â'r heriau economaidd hirsefydledig a welir mewn rhannau o'r wlad. Byddwn yn buddsoddi yn y seilwaith mewn modd cyfrifol a darbodus a all wneud gwahaniaeth ac yn sicrhau bod cymunedau ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig yn braf, yn ddiogel ac yn ffyniannus. A byddwn yn buddsoddi llawer mwy mewn helpu gweithwyr i hyfforddi ac ailhyfforddi ar gyfer swyddi a diwydiannau'r dyfodol.

Buddsoddi mewn pobl, adfer gwead ein trefi a'n dinasoedd, adeiladu'r cartrefi sydd eu hangen arnom, cefnogi gwyddoniaeth a diwydiant, atgyfnerthu'r Undeb mawreddog rhwng pedair cenedl y Deyrnas Unedig – dyna sut y gwireddwn botensial llawn ein gwlad.

Ni yw'r unig blaid all gyflawni hyn oll, oherwydd ni yw'r unig blaid sy'n deall y cymesuredd sydd wrth wraidd economi'r DU. Yr unig ffordd o ariannu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf a seilwaith neilltuol yw annog y miliynau o fusnesau Prydeinig sy'n creu cyfoeth y wlad – yn enwedig busnesau bach, cwmnïau teuluol a'r hunangyflogedig.

Safwn dros y bobl sy'n gweithio bob awr y gallant, y rhai sy'n mentro ar syniad newydd, y rhai sy'n herio marchnadoedd sy'n bodoli eisoes. Eu llwyddiant nhw yw ein llwyddiant ni.

A safwn dros y bobl sy'n rhoi o'u hamser i helpu eraill – yr elusennau, y grwpiau cymunedol a'r gwirfoddolwyr sydd eisoes yn gwneud cymaint i wneud ein gwlad yn lle gwell.

Credwn, mewn geiriau eraill, fod Prydain yn wlad fawreddog – y gorau ar y ddaear. Gyda'n gilydd, gallwn ei gwneud hi'n fwy mawreddog byth.

# Cytundeb newydd i gymunedau

**Bydd ein cyllid yn cefnogi cymunedau sy'n ddiogel i gerdded ynddynt ac yn bleser i fod ynddynt. Lle mae pethau i'w gwneud, llefydd i siopa, bwyta, mwynhau profiadau, lle mae trafnidiaeth yn hawdd a lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu'n dda, a lle mae dyfodol cymuned yn nwylo'r bobl sy'n byw yno.**

Rydym yn cyflwyno cytundebau twf i bob rhanbarth yng Nghymru, gan ddarparu £790 miliwn mewn cyllid ychwanegol i gefnogi twf economaidd a chreu cyfleoedd gwaith sy'n talu'n dda i bobl ym mhob cwr o'r wlad.

**Byddai blaenoriaethau Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn cynnwys y canlynol:**

- **Adfywio trefi**. Byddai Cronfa Trefi Glan Môr a Chronfa Trefi Marchnad yn cael eu sefydlu er mwyn helpu trefi o'r fath i wella eu heconomi leol. Y gymuned fyddai'n penderfynu sut i wario'r arian hwn, ond gallai dalu am wifi am ddim, cymorth i fusnesau lleol, a gwell cysylltiadau trafnidiaeth.
- **Strydoedd mwy diogel, trefi mwy diogel**. Bydd cronfa Strydoedd Mwy Diogel newydd yn buddsoddi mewn mesurau ataliol fel CCTV newydd neu wardeniaid cymunedol. Bydd yr heddlu hefyd yn cael mwy o bŵer i atal gwersylloedd teithwyr ac arestio unigolion lle bo'n briodol.
- **Seilwaith dinesig newydd**. Byddem yn buddsoddi mewn **Rhaglen Gyfalaf Ddiwylliannol** er mwyn helpu i ddatblygu amgueddfeydd a llyfrgelloedd lleol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phrifysgolion lleol er mwyn gwneud mwy i addysg, iechyd a ffyniant eu hardal leol.
- **Perchenogaeth gymunedol**. Byddem yn sefydlu **Cronfa Perchenogaeth Gymunedol** er mwyn annog cymunedau lleol i gymryd perchenogaeth o sefydliadau dinesig neu asedau cymunedol sydd dan fygythiad – clybiau pêl-droed lleol, ond tafarndai neu swyddfeydd post hefyd. Byddem yn sefydlu adolygiad o lywodraethu pêl-droed, wedi'i arwain gan gefnogwyr, a fydd yn cynnwys ystyried y Prawf Perchenogion a Chyfarwyddwyr, a byddwn yn gweithio gyda chefnogwyr a chlybiau i gyflwyno mannau sefyll diogel. A byddwn yn helpu cymunedau sydd am greu 'parciau poced' ac adfywio ardaloedd segur.
- **Rhoi dyfodol i bobl.** Yn ogystal â'n buddsoddiad mewn ysgolion ac addysg dechnegol, byddem yn darparu £25 miliwn i gefnogi gwasanaethau a chlybiau ieuenctid.
- **Ysbryd cymunedol**. Drwy ein Cronfa Fuddsoddi Ddiwylliannol, byddem yn cefnogi gweithgareddau, traddodiadau a digwyddiadau sy'n dwyn cymunedau ynghyd ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant. Byddem yn cefnogi papurau bro drwy ymestyn rhyddhad ardrethi busnes ac yn ystyried ffyrdd eraill o'u cefnogi.

## Adfer ein cymunedau

Mae pobl yn ymfalchïo ym mro eu mebyd a'u milltir sgwâr, a da o beth yw hynny. Ond mae gormod o gymunedau ledled Cymru yn teimlo eu bod wedi'u siomi. Caiff troseddau treisgar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hanwybyddu mewn môr o siopau a thafarndai sydd wedi hen gau ar ein stryd fawr. Hefyd, mae angen i'n cymunedau gwledig gael cytundeb newydd y tu allan i'r UE sy'n cefnogi eu ffordd o fyw.

Fel Ceidwadwyr rydym am i chi gael rhyddid – trethi isel, cyfle, y siawns i wireddu eich breuddwydion. Ond rydym hefyd am i chi gael sicrwydd strydoedd diogel a braf, ac ymfalchïo yn eich cymuned sy'n rhoi tawelwch meddwl i chi.

## Lansio chwyldro trafnidiaeth

**Rhan allweddol o'n cynllun i sicrhau bod dinasoedd a rhanbarthau'r DU yn cael yr un chwarae teg yw eu cysylltu.**

Byddwn yn ymgynghori ar y dyddiad cynharaf y gallwn roi'r gorau i werthu ceir petrol a diesel confensiynol newydd. Byddwn yn rhoi diwedd ar y

model masnachfreinio cymhleth ac yn creu system reilffordd symlach a mwy effeithiol, sy'n rhoi mwy o reolaeth i arweinwyr lleol.

Fel yn Ffrainc, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaeth sylfaenol weithredu adeg streiciau trafnidiaeth. Mae gweithwyr rheilffyrdd yn haeddu chwarae teg, ond nid yw'n deg gadael i'r undebau llafur danseilio bywoliaeth pobl eraill.

Mae'r Senedd wedi pleidleisio mewn egwyddor dros gefnogi trydydd llwybr glanio yn Heathrow. Ond prosiect sector preifat ydyw. Mae angen i Heathrow ddangos y gall gyflawni ei rwymedigaethau o ran ansawdd aer a sŵn, y gall gael ei ariannu a'i adeiladu, a bod yr achos busnes yn realistig. Ni chaiff y cynllun unrhyw arian cyhoeddus newydd.

**Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn:**

- Datblygu cynigion i **uwchraddio'r A55** fel priffordd y gogledd a gwella capasiti a hydwythedd ar y ffordd.
- Mynd ati i **ddeuoli'r A40** i Aberdaugleddau erbyn 2025.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i **gyflwyno ffordd osgoi Pant/ Llanymynech**.
- Sicrhau bod **ffordd liniaru'r M4 yn cael ei chreu**.
- **Gwella cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y ffin ac o fewn Cymru.**
- **Rhoi cyllid ychwanegol i bob awdurdod lleol yng Nghymru wella ac ehangu gwasanaethau bysiau**, gan eu gwneud yn fwy rheolaidd, ac sy'n cynnwys mwy o gerbydau trydanol sydd wedi'u hintegreiddio'n well â mathau eraill o drafnidiaeth.
- **Buddsoddi hyd at £50 miliwn yn y gwaith o gwblhau rhwydwaith gwefru cyflym** er mwyn sicrhau bod pawb yng Nghymru bob amser o fewn 30 milltir i orsaf wefru cerbydau trydanol.
- **Buddsoddi mwy mewn ffyrdd strategol a lleol.**
- Cynyddu cyllid ar gyfer **llwybrau cerdded a beicio**, gan greu seilwaith beicio newydd a safonau dylunio newydd y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn cael unrhyw arian. Byddem yn cefnogi llwybrau beicio i gymudwyr, yn cysylltu mwy o bobl â swyddi, ac yn hyrwyddo beicio er mwyn byw'n iachach.

Mae cysylltu'r DU yn golygu mwy na dim ond trafnidiaeth. Ni yw canolfan dechnoleg Ewrop, gan greu busnesau newydd a straeon llwyddiant di-baid. Ond ni all pawb elwa. Bwriadwn sicrhau bod gan **bob cartref a busnes fand eang ffeibr llawn, a all gynnig cyflymderau gigabit, erbyn 2025** ledled Cymru.

Gwyddom pa mor anodd fydd hyn, felly rydym wedi cyhoeddi cyfres o newidiadau deddfwriaethol er mwyn i ni gymryd camau breision, ynghyd â **£5 biliwn o gyllid cyhoeddus newydd ledled y DU** i gysylltu safleoedd nad ydynt yn fasnachol hyfyw.

Llywodraeth leol sydd wrth wraidd ein system ddemocrataidd. Rydym yn falch bod cynghorau Ceidwadol wedi arwain y ffordd wrth helpu i gadw'r dreth gyngor yn isel, gan ddarparu gwerth am arian a chefnogi cymunedau lleol. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn parhau â'r ymrwymiad hwn i lywodraeth leol drwy sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu hariannu'n briodol a byddai'n atal cynnydd eithafol yn y dreth gyngor heb gydsyniad lleol drwy ddeddfu am refferendwm lleol ar unrhyw gynnydd sydd uwchlaw chwyddiant.

Rydym yn ymrwymedig i ddatganoli a gallwn warantu na fydd Cymru yn colli unrhyw bwerau na chyllid ar ôl i ni ymadael â'r UE. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig hefyd yn ceisio

**datganoli pwerau o Gaerdydd i ranbarthau Cymru** ac yn ystyried sefydlu meiri rhanbarthol newydd, wedi'u hethol yn uniongyrchol, yn y gogledd, y canolbarth a'r de, y bydd eu harweinwyr yn sefyll dros eu priod ranbarthau ac yn cyflawni'r cytundebau twf yn eu hardaloedd.

## Darparu'r tai sydd eu hangen ar bobl

**Mae bod yn berchen ar eich cartref eich hun yn un o werthoedd mwyaf sylfaenol y Ceidwadwyr. Mae pobl yn hapusach, yn fwy diogel ac yn teimlo'n fwy o ran o'u cymunedau pan fyddant yn berchen ar eu cartref eu hunain – ac yn gwybod y gallant ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.**

Er mwyn i Gymru wireddu ei photensial, mae angen i bobl ifanc gael y sicrwydd o wybod bod prynu tŷ o fewn cyrraedd iddynt – y gallant hwythau hefyd gael budd mewn cymdeithas, ymwreiddio yn eu cymunedau a chael rhywle i fagu teulu.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn ceisio ailfantoli'r farchnad dai fel bod mwy o bobl yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, gan sicrhau tegwch i'r genhedlaeth newydd o rentwyr hefyd.

## Helpu pobl i brynu a rhentu

- Y broblem fwyaf sy'n wynebu pobl ifanc sydd am brynu cartref yw'r blaendal. Mae mwy na thair miliwn o bobl, y mae gan lawer ohonynt swyddi da a rhagolygon sicr, a fyddai wedi bod yn berchen ar eu cartref eu hunain cyn argyfwng economaidd 2008 ond sydd wedi'u hatal rhag cael morgais. Byddwn yn annog marchnad newydd mewn **morgeisi cyfradd sefydlog hirdymor sy'n torri cost blaendaliadau**, gan gynnig llwybr sicr i brynwyr tro cyntaf ledled y Deyrnas Unedig brynu cartref.

**Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn:**

- Cyflwyno **Cytundeb Newydd i Rentwyr** sy'n cynnwys diddymu'r arfer o droi tenantiaid allan 'heb fai', ac ond yn gofyn am un blaendal 'gydol oes' sy'n symud gyda'r tenant.
- **Cynnig mwy o gartrefi i deuluoedd lleol**, gan alluogi cynghorau i ddefnyddio cyfraniadau datblygwyr i ostwng pris tai draean i bobl leol na allant fel arall fforddio prynu yn eu hardal.
- Ailgyflwyno **Hawl i Brynu** ar sail ddiwygiedig, gan fynnu bod 100 y cant o dderbyniadau yn cael eu buddsoddi mewn tai cymdeithasol newydd ac atal unrhyw dai cymdeithasol newydd sbon rhag cael eu gwerthu am 10 mlynedd o leiaf.
- **Diwygio deiliadaethau lesddaliadol** gan gynnwys gwahardd gwerthu cartrefi lesddaliadol newydd, sicrhau bod rhenti tir yn rhad, a sicrhau y gall tenantiaid gymryd y camau unioni angenrheidiol.
- **Dileu Treth Trafodion Tir Cymru (Treth Stamp) i brynwyr tro cyntaf** hyd at £250,000.
- Lansio rhaglen uchelgeisiol i **adeiladu 100,000 o gartrefi newydd** dros ddegawd, gan gynnwys 40,000 o gartrefi cymdeithasol newydd.
- **Ymestyn Hawl i Brynu** i eiddo y mae angen ei adnewyddu, gan helpu i'w ailddefnyddio unwaith eto.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig hefyd yn rhoi blaenoriaeth i roi diwedd ar gysgu ar y stryd a digartrefedd er mwyn sicrhau bod gan bawb rywle diogel â chymorth i'w alw'n gartref.

Prif ffocws dull y Ceidwadwyr Cymreig o weithredu fydd **Tai yn Gyntaf**, sy'n galluogi pobl i gael tai yn syth, beth bynnag fo'u hanghenion, ac yna roi cymorth cofleidiol a thriniaeth iddynt.

Bydd Tai yn Gyntaf yn ganolbwynt cynllun Llywodraeth Geidwadol Gymreig i drechu digartrefedd yng Nghymru, sy'n cynnwys:

- Deddfu i **wneud Tai yn hawl ddynol sylfaenol** yng Nghymru.
- Ymrwymo i **roi diwedd ar gysgu ar y stryd yng Nghymru erbyn 2026**.
- **Darparu 150 o dai cymdeithasol gwag i'w defnyddio ar unwaith, yn benodol ar gyfer cyn-filwyr** sydd mewn perygl o ddigartrefedd.
- Cyflwyno **dosbarthiadau ymwybyddiaeth tai a digartrefedd statudol** ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru.
- Penodi **Tsar Digartrefedd**, yn ddelfrydol, rhywun â phrofiad o ddigartrefedd.

# Llefydd rydym am fyw ynddynt

**Nid yw Llywodraeth Cymru yn llwyddo i adeiladu'r cartrefi sydd eu hangen ar bobl; y llynedd adeiladwyd llai na 6,000 o gartrefi newydd. Yn ogystal â sicrhau bod 100,000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu, byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn sicrhau bod ein cymunedau yn ardaloedd rydym am fyw ynddynt:**

- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau i **ddefnyddio tir segur a heb ei ddatblygu** a all gael ei ddatblygu'n fannau gwyrdd trefol.
- Creu **Cronfa Seilwaith Technoleg** er mwyn sicrhau bod wifi llawn ar gael mewn canol trefi a dinasoedd ledled Cymru gyfan.
- Cyflwyno '**Grant Atal Sbwriel Trefol**' sy'n treialu cynlluniau atal sbwriel arloesol fel trapiau afon, camerâu sbwriel a llygredd economi nos.
- **Dyblu hyd llwybrau beicio a cherdded** mewn ardaloedd preswyl trefol erbyn 2040, gan flaenoriaethu rhwydweithiau beicio lleol o amgylch angorau cymunedol.
- Cyflwyno **10,000 o fannau gwefru trydan** erbyn 2030.
- Darparu cyllid ar gyfer **menter Cartrefi Clyfar** er mwyn cefnogi cynlluniau ynni micro a chymdogaeth.
- **Cefnogi creu mathau newydd o gartrefi nad oes ganddynt filiau** ynni ac sy'n cefnogi ein targedau amgylcheddol. Byddwn hefyd yn disgwyl gweld coed ar hyd pob stryd newydd.
- **Annog dylunio** a thechnoleg **arloesol** er mwyn gwneud tai yn fwy fforddiadwy, hygyrch, ac yn addas i bobl anabl a phoblogaeth sy'n heneiddio.
- **Datganoli mwy o gyfrifoldebau cynllunio i gymunedau lleol**, gan roi mwy o lais iddynt ac ailgydbwyso anghenion lleol â thargedau canolog.
- **Diwygio rheolau cynllunio** fel bod y seilwaith – ffyrdd, ysgolion, meddygfeydd – yn dod cyn i bobl symud i mewn i'w cartrefi newydd.
- **Sefydlu parthau Llain Las** mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd er mwyn atal gwaith datblygu amhriodol.

# Sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau i ddechrau a thyfu busnes

**Rydym am sicrhau mai Cymru yw'r wlad orau yn y byd i ddechrau a rhedeg busnes – man lle mae entrepreneuriaid yn gwybod y gallant feithrin eu syniadau a llwyddo.**

Nid dim ond am fod busnesau yn dda i gymdeithas, gan greu'r swyddi sy'n rhoi bwyd ar y bwrdd, a chynhyrchu'r refeniw treth sy'n ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Ond oherwydd ein bod yn credu y dylem wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r rhai sydd am ddechrau eu cwmni eu hunain, mentro ar eu pen eu hunain, a chael syniad sy'n datblygu'n fusnes llewyrchus. Ein cenhadaeth fel Ceidwadwyr yw rhoi cyfle i bawb, ledled y wlad, gyflawni eu potensial.

Mae gennym lawer o gryfderau. Rydym yn economi hynod gystadleuol sydd â system addysg gref a fframwaith rheoliadol uchel ei fri. Mae gennym fwy o brifysgolion o'r radd flaenaf nag unrhyw le yn Ewrop.

Rydym yn denu doniau, ac mae gennym fwy o gwmnïau newydd arloesol a llwyddiannus nag unrhyw le ar y cyfandir – yn enwedig yn y sector technoleg. Mewn meysydd fel technoleg, gwasanaethau ariannol, y gyfraith a'r diwydiannau creadigol rydym yn arwain y byd – a byddwn yn parhau i wneud hynny ar ôl Brexit.

O blith y chwe miliwn o fusnesau bron yn y DU a 259,200 yng Nghymru, mae'r rhan helaeth yn rhai bach a chanolig. Nhw yw asgwrn cefn yr economi ac mae Prydain yn ddiau yn gryfach oherwydd eu cyfraniad.

Fodd bynnag, yma yng Nghymru cawn ein llesteirio gan Lywodraeth Lafur Cymru sydd â'r amgylchedd ardrethi busnes lleiaf cystadleuol yn y DU a'r nifer mwyaf o siopau gwag ar y stryd fawr.

Ar ôl i ni gyflawni Brexit, gallwn ddefnyddio ein rhyddid newydd i sicrhau bod busnesau'r DU yn gwireddu eu potensial anhygoel – eu bod yn gallu buddsoddi, cyflogi, allforio a thyfu, yn hytrach na chael eu difetha gan elyniaeth ddidrugaredd Jeremy Corbyn a John McDonnell tuag at uchelgais ac entrepreneuriaeth.

## Lleihau costau a chefnogi busnesau bach

**Deallwn her costau rhedeg cynyddol, yn enwedig i fusnesau llai, ac rydym yn ymrwymedig i'w lleihau.**

Ond rydym hefyd am fynd i'r afael â'r rhwystrau beunyddiol eraill maent yn eu hwynebu.

- **Byddwn yn ymrwymo i ostyngiadau gwirioneddol mewn perthynas â baich ardrethi busnes ar gwmnïau unigol.** Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn adolygu ardrethi busnes gan ganolbwyntio'n arbennig ar sut i gefnogi busnesau bach. Fel cam cyntaf byddem yn lliniaru ymhellach faich ardrethi busnes ar fusnesau manwerthu ac yn hepgor lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad, sinemâu bach, a thafarndai.
- Byddwn yn **cynyddu'r Lwfans Cyflogaeth i fusnesau bach** – gostyngiad treth i hanner miliwn o gwmnïau bach.
- **Byddwn yn cefnogi busnesau newydd a busnesau bach drwy broses gaffael y llywodraeth, ac yn ymrwymo i'w talu ar amser.** Byddwn hefyd yn **rhoi terfyn ar daliadau hwyr** yn ehangach, ac yn atgyfnerthu pwerau'r Comisiynydd Busnesau Bach er mwyn cefnogi



## Charlotte Lang
**Ymgeisydd Aberafan**
**Cyfarwyddwr Cysylltiadau Cyhoeddus**

busnesau bach y mae eu partneriaid mwy yn camfanteisio arnynt.

- **Byddwn yn ehangu benthyciadau i fusnesau newydd**, a ddefnyddir yn arbennig gan entrepreneuriaid BAME a menywod. Mae Banc Busnes Prydain wedi cefnogi 90,000 o fusnesau llai gyda mwy na £7 biliwn mewn buddsoddiadau neu fenthyciadau, a bydd yn parhau i dyfu.
- **Byddwn yn helpu busnesau bach a chanolig i ddod yn allforwyr**, fel y gallant achub ar y cyfleoedd a fydd ar gael unwaith i ni gyflawni Brexit.

Mae system reoleiddio dda yn hanfodol i fusnesau llwyddiannus: byddwn yn anelu at **daro'r cydbwysedd rheoleiddiol cywir** rhwng cefnogi arfer busnes rhagorol a diogelu gweithwyr, defnyddwyr a'r amgylchedd. Drwy ein Her Fiwrocratiaeth, byddwn yn **sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio yn synhwyrol ac yn gymesur, a'n bod bob amser yn ystyried anghenion busnesau bach** wrth lunio rheolau newydd, gan ddefnyddio ein rhyddid newydd ar ôl Brexit i sicrhau bod rheolau Prydain yn gweithio i gwmnïau Prydain.



# Cefnogi entrepreneuriaid ac arloesedd

**Bob dydd, mae pobl yn mentro eu cynilion a'u dyfodol drwy ddod yn entrepreneuriaid. Maent yn creu'r nwyddau a'r gwasanaethau newydd sy'n gwella ein bywydau. O ddatgarboneiddio i ddatblygu deallusrwydd artiffisial, maent yn mynd i'r afael â rhai o heriau mawr ein hoes. Rydym am fod yn genedl o fusnesau newydd, a busnesau sy'n datblygu'n llwyddiannus. Mae gennym fwy o gwmnïau technolegol biliwn doler newydd nag unrhyw wlad arall yn Ewrop.**

Rydym yn falch o'r gwaith rydym wedi'i wneud i gefnogi entrepreneuriaeth ac rydym am weld mwy o entrepreneuriaid – gan gynnwys menywod ac unigolion o gefndiroedd BAME. Mae rhywfaint o'n gwaith wedi bod yn llwyddiant ysgubol – fel y **Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau** a'r **Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau**, a fydd yn **parhau yn ystod oes y Senedd nesaf**. A thrwy dorri treth gorfforaeth o 28 y cant i 19 y cant, rydym wedi annog mwy o fusnesau i fuddsoddi a thyfu yn y DU.

Mae rhai mesurau wedi gweithio, ond mae angen iddynt fynd ymhellach – fel **credydau treth ymchwil a datblygu**. Byddwn yn **cynyddu'r gyfradd credyd treth i 13 y cant ac yn adolygu'r diffiniad o ymchwil a datblygu** fel bod buddsoddiadau pwysig mewn data a chyfrifiadureg cwmwl, sy'n rhoi hwb i gynhyrchiant ac arloesedd, hefyd yn cael cymhelliant.

Rhaid i ni hefyd gydnabod nad yw rhai mesurau wedi cael yr effaith yr oeddem yn ei gobeithio, felly byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r **Rhyddhad i Entrepreneuriaid. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig hefyd yn cynyddu cyllid Banc Datblygu Cymru i'w fuddsoddi mewn sectorau twf.**

Wrth gwrs, mae a wnelo cefnogi busnesau â mwy na dim ond eu

hyrwyddo – mae mwy o bobl nag erioed yn dod yn hunangyflogedig, yn enwedig menywod. Felly, byddwn yn lansio adolygiad er mwyn **archwilio ffyrdd o gefnogi pobl hunangyflogedig yn well**. Mae hynny'n cynnwys ei gwneud hi'n haws iddynt gael cyllid a chredyd (yn cynnwys morgeisi), gan wneud y system dreth yn haws i'w defnyddio, ac ystyried sut y gall gwell gwasanaeth band eang roi hwb i'r sawl sy'n gweithio gartref.

## Creu system drethu decach

**Mae'r Ceidwadwyr yn credu mewn system treth gorfforaeth sy'n gwobrwyo entrepreneuriaeth ac yn cosbi'r sawl sy'n efadu trethi. Byddwn bob amser ar ochr byd busnes, heb os, wrth sicrhau bod pawb yn talu eu cyfran deg o drethi. Mae'r trethdalwyr incwm hynny sydd yn yr 1 y cant uchaf eisoes yn talu mwy na 29 y cant o dreth incwm – sy'n uwch nag ar unrhyw adeg yn ystod y Llywodraeth Lafur ddiwethaf.**

Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn er mwyn **trechu efadu trethi a lleihau'r cyfleoedd i osgoi trethi mewn modd grymus.**

Ers 2010, rydym wedi **cyflwyno mwy na 100 o fesurau atal osgoi** ac **wedi sicrhau mwy na £200 biliwn a fyddai fel arall heb gael ei dalu** – £24 biliwn yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Rydym wedi arwain y frwydr ryngwladol yn erbyn osgoi trethi mewn modd grymus a hafanau treth alltraeth, ailysgrifennu rheolau byd-eang er mwyn sicrhau bod treth yn cael ei thalu lle gwneir elw. Mae hyn wedi cynnwys ymrwymo 100 o awdurdodaethau i roi diwedd ar gyfrinachgarwch y banciau.

Ond gallwn fynd hyd yn oed ymhellach. Ar hyn o bryd mae gwahaniaeth o £35 biliwn rhwng y treth a ddylai gael ei thalu a'r dreth a gesglir mewn gwirionedd, sy'n rhy fawr o hyd. Dylai busnesau a theuluoedd sy'n gweithio'n galed sydd yn talu eu cyfran deg wybod na wnawn anwybyddu efadu trethi. Felly byddwn yn **cyflwyno cyfraith newydd i atal osgoi ac efadu trethi**. Bydd hyn yn:

- **Dyblu'r uchafswm dedfryd i 14 mlynedd** i unigolion a geir yn euog o'r enghreifftiau mwyaf dybryd o dwyll trethi.
- **Creu un uned Atal Efadu Trethi gadarn yn CThEM** sy'n cwmpasu pob toll a threth, o wallau unigol i achosion bwriadol o ddiffyg cydymffurfio – sydd ar sail ddeddfwriaethol.
- **Cyfuno mesurau a phwerau atal osgoi ac efadu trethi.**
- **Cyflwyno pecyn newydd o fesurau atal efadu trethi,** gan gynnwys mesurau i roi diwedd ar gamddefnyddio trethi yn y sector adeiladu, rhoi diwedd ar becynnau tybaco anghyfreithlon, a mesurau pellach i osgoi symud elw gan gwmnïau aml-genedlaethol er mwyn osgoi talu trethi.

**Dylai cwmnïau aml-genedlaethol mawr dalu eu cyfran deg o dreth**. Fel rhan o hyn, byddwn yn **gweithredu'r Dreth Gwasanaethau Digidol**.

Er y byddwn bob amser yn cefnogi entrepreneuriaid sy'n dewis y DU fel y lle i fuddsoddi a sefydlu busnes ynddo, byddwn yn cymryd camau pellach i **ailddylunio'r system dreth fel ei bod yn hybu twf, cyflogau a buddsoddiad, ac yn cyfyngu ar fanteision treth mympwyol i'r cyfoethocaf mewn cymdeithas**.

**Rydym hefyd yn atgyfnerthu cyfundrefn llywodraethu corfforaethol y DU, a byddwn yn diwygio rheolau ansolfedd a'r gyfundrefn archwilio** fel bod cwsmeriaid a chyflenwyr – a thalwyr trethi'r DU – yn cael eu diogelu'n well pan fydd cwmnïau fel Thomas Cook yn mynd i'r wal. Byddwn hefyd yn astudio'n ofalus ganlyniadau'r ymchwiliad sy'n mynd rhagddo i'w gwymp. Byddwn hefyd yn **gwella cymhellion er mwyn mynd i'r afael â phroblem cyflogau lefel weithredol gormodol a gwobrwyo unigolion am fethu.**

Byddwn yn ailgyflwyno deddfwriaeth sy'n **diogelu cronfeydd pensiwn rhag cael eu gwagio gan gyflogwyr diofal,** yn helpu i feithrin gwybodaeth cynilwyr drwy ddangosfyrddau pensiwn, ac yn creu math newydd o gynllun pensiwn sy'n fwy cynaliadwy i weithwyr a chyflogwyr.

## Tegwch yn y gweithle

**Yn ogystal â sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau i ddechrau busnes, a'r lle gorau i ddysgu a meithrin eich sgiliau, rydym am sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau o ran byd gwaith.**

Mae'r cynnydd mewn cyflogaeth y mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi'i oruchwylio ers 2010 yn brawf nad yw lefelau cyflogaeth uchel a safonau uchel yn gwrth-ddweud ei gilydd – nac ychwaith dwf dynamig a diogelu cyflogeion rhag polisïau annheg a thriniaeth wahaniaethol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, mae lefelau diweithdra wedi parhau i ostwng, hyd yn oed wrth i gyflogau cyfartalog gwirioneddol gynyddu.


Rydym wedi **codi'r lwfans treth incwm personol**, wedi cynyddu'r isafswm cyflog ac wedi cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol, a'i godi'n gyson, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cadw mwy o'r hyn maent yn ei ennill a bod gwaith bob amser yn talu. Ac rydym wedi anelu at daro'r **cydbwysedd cywir rhwng yr hyblygrwydd sydd ei angen ar yr economi a'r sicrwydd y mae cyflogeion yn ei haeddu**, gan gyflwyno mesurau diogelu newydd i weithwyr wrth gynnal y natur ddynamig a'r gweithgarwch creu swyddi sy'n llywio ein ffyniant a rennir.

Ac unwaith y byddwn wedi cyflawni Brexit, awn ymhellach. Oherwydd **ni all pobl gyflawni eu potensial os nad oes ganddynt swyddi sy'n eu trin ag urddas a pharch**, ac os nad ydynt yn rheoli eu bywydau a'u dyfodol.

Fel Ceidwadwyr byddwn bob amser yn **rhoi blaenoriaeth i egwyddor tegwch yn y gweithle**, boed hynny ar y cam gwneud cais am swydd, sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal, neu amodau gwaith pobl.

Felly, byddwn yn adeiladu ar ein cyfraith cyflogaeth bresennol drwy gyflwyno mesurau newydd sy'n diogelu pawb, yn enwedig y rhai mewn swyddi cyflog isel:

- **Byddwn yn creu un corff gorfodi ac yn rhoi diwedd ar unrhyw gyflogwr sy'n camddefnyddio cyfraith cyflogaeth,** boed hynny drwy fynd â thipiau gweithwyr neu wrthod talu cyflog salwch iddynt.
- Byddwn yn sicrhau **bod gan weithwyr yr hawl i ofyn am gontract mwy rhagweladwy** ynghyd â mesurau diogelu rhesymol eraill.



**Tomos Davies**
**Ymgeisydd Dwyfor Meirionnydd**
**Ymgynghorydd Cysylltiadau Cyhoeddus**

Rydym hefyd am edrych ar ffyrdd mwy radical o gefnogi teuluoedd sy'n gweithio yn y DU. Mae ein ffyrdd o fyw wedi cael eu trawsnewid dros y pedwar degawd diwethaf – mae gan lawer o deuluoedd heddiw ddau riant sy'n gweithio sy'n ceisio cydbwyso gwaith a chyfrifoldebau eraill. Maent yn gorfod ymestyn eu hunain bob dydd i ofalu am blant, perthnasau oedrannus a'r rhai ag anableddau. I fenywod, sef prif ofalwyr cartrefi fel rheol, gall hyn gael effaith fawr ar eu gyrfaoedd a chyfyngu ar eu rôl yn y gweithle.

Ond er bod y gweithle modern yn ymaddasu o ganlyniad, gallwn wneud mwy fel Llywodraeth i wneud pethau'n haws, a dysgu o ddulliau gweithredu synhwyrol mewn gwledydd eraill. Felly byddwn yn



cyflwyno cyfres o fesurau sy'n cydbwyso anghenion cyflogeion a chyflogwyr:

- Byddwn yn **annog gweithio hyblyg**, ac yn ymgynghori ar wneud hyn yn ddiofyn oni fydd gan gyflogwyr resymau da dros beidio â gwneud hynny.
- Rydym **wedi diwygio cyfraith ddiswyddo fel na all cwmnïau wahaniaethu yn erbyn menywod** yn syth ar ôl iddynt ddychwelyd o gyfnod mamolaeth.
- Byddwn yn deddfu i **alluogi rhieni i gymryd absenoldeb estynedig ar gyfer gofal newyddenedigol**, er mwyn cefnogi'r mamau a'r tadau newydd hynny sydd ei angen yn ystod diwrnodau anoddaf eu bywydau. A byddwn yn edrych ar ffyrdd **o'i gwneud hi'n haws i dadau gymryd absenoldeb tadolaeth**.
- Byddwn yn **ymestyn yr hawl i absenoldeb i ofalwyr di-dâl**, lle mai menywod yw'r mwyafrif, i wythnos.

Dros y naw mlynedd ddiwethaf, rydym wedi ymestyn y cynnig oriau gofal plant am ddim i fwy o rieni sy'n gweithio. Gwyddom fod pobl yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn, ond yn dymuno iddo fod yn fwy hyblyg. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn ariannu mwy o ofal plant o ansawdd uchel cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau fel nad oes angen i rieni sy'n gweithio ddewis rhwng eu gyrfaoedd a'u plant.

Mewn geiriau eraill, nid yw ein gweledigaeth i'r farchnad lafur yn un lle mae'r wladwriaeth yn gwneud popeth drosoch. Mae'n un lle mae'r wladwriaeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i'ch helpu chi i helpu eich hun – drwy wella eich sgiliau, neu drwy allu cydbwyso bywyd a gwaith. Mae'n un lle mae ymrwymiad cryf i entrepreneuriaeth a busnes yn cyfateb i ddyhead i sicrhau bod y swyddi sy'n cael eu creu yn rhai hynod fedrus, sy'n talu'n dda, ac sy'n llawn boddhad.

## Rhyddhau arloesedd

**Mae gan y DU hanes balch o arloesi a darganfod. Ni yw'r wlad a roddodd i'r byd benisilin, y We Fyd-eang, damcaniaethau disgyrchiant ac esblygiad, a eglurodd strwythur DNA. Mae gan Brifysgol Caergrawnt yn unig fwy o enillwyr Gwobr Nobel nag mewn unrhyw wlad arall yn y byd heblaw am yr Unol Daleithiau. Mwy, yn wir, na Ffrainc, Japan, India a Tsieina gyda'i gilydd.**

Mae'r ysbryd hwnnw o ddarganfod yn dal i fod yn fyw yn y wlad hon heddiw. Ond nid ydym bob amser wedi troi ein hathrylith am arloesedd yn swyddi a chwmnïau yma ym Mhrydain. Mae rheoliadau'r UE wedi bod yn rhwystr arall i arloesedd.



**Sara Jones**
**Ymgeisydd Merthyr Tudful a Rhymni**
**Perchennog Fferm**

Mae angen i ni ddefnyddio gwyddoniaeth ac ymchwil i uno ein gwlad a'i hunioni, gan roi cyfle a gobaith i bobl.

Ar ôl i ni gyflawni Brexit, byddwn yn canolbwyntio ar heriau mawr y dyfodol, fel ynni glân a storio ynni lefel uwch; gwella dementia; a datrys ymwrthedd i wrthfiotigau. I wneud hyn byddwn yn gwneud buddsoddiad nas gwelwyd o'r blaen mewn gwyddoniaeth fel y gallwn atgyfnerthu ymchwil ac adeiladu sylfeini diwydiannau newydd y dyfodol.

Ymrwymwn i'r cynnydd cyflymaf erioed mewn gwariant ymchwil a datblygu cyhoeddus domestig, gan gynnwys mewn ymchwil wyddonol sylfaenol er mwyn cyflawni ein targed o wario 2.4 y cant o CDG ar ymchwil a datblygu ym mhob rhan o'r economi. Bydd rhywfaint o'r gwariant newydd hwn yn mynd i asiantaeth newydd ar gyfer ymchwil risg uchel, enillion uchel, sydd hyd braich i'r llywodraeth. Byddwn yn parhau i gefnogi ein sector gwyddoniaeth rhagorol wrth i ni ymadael â'r UE.

Yn wahanol i Lafur Corbyn, ni fyddwn yn gwario'n ddall ac yn wastraffus.

- Byddwn yn **canolbwyntio ar feysydd lle gall y DU arwain y blaen yn niwydiannau'r dyfodol** – gwyddorau bywyd, ynni glân, mannau,

dylunio, cyfrifiadureg, roboteg a deallusrwydd artiffisial.

- Yn arbennig, byddwn yn sicrhau mai'r **DU yw canolfan fyd-eang arweiniol gwyddorau bywyd ar ôl Brexit**.
- Byddwn yn defnyddio Cronfa £1 biliwn Ayrton i **ddatblygu ynni glân fforddiadwy a hygyrch** a fydd yn gwella bywydau ac yn ein helpu i arwain y byd wrth drechu newid hinsawdd.
- Byddwn yn defnyddio ein cyllid ymchwil a datblygu uwch gan y Llywodraeth i **ddenu a sbarduno buddsoddiad preifat**.
- Byddwn yn **cefnogi cydweithio a chyfnewid rhyngwladol** ac yn sicrhau y gall timau'r DU recriwtio'r **sgiliau a'r doniau sydd eu hangen arnom o dramor**.
- Byddwn yn **diwygio'r system cyllido gwyddoniaeth** er mwyn lleihau'r amser a wastreffir gan wyddonwyr yn llenwi ffurflenni.
- Byddwn yn **datgloi cyfalaf hirdymor mewn cronfeydd pensiwn i'w fuddsoddi yn ein darganfyddiadau gwyddonol a'u masnacheiddio**, gan greu economi wyddonol fywiog ar ôl Brexit.
- Byddwn yn parhau i **gydweithio'n rhyngwladol ac â'r UE ar ymchwil wyddonol**, gan gynnwys Horizon.
- Byddwn yn defnyddio dulliau caffael Llywodraeth y DU er mwyn cefnogi syniadau newydd a chwmnïau newydd.

Ond nid dim ond gwaith labordy sydd dan sylw yma. Mae'r DU ar ei gorau pan fydd yn cyfuno ei galluoedd dylunio ac artistig rhagorol â gwyddoniaeth a thechnoleg. Bydd **Gŵyl Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn 2022** – dathliad cenedlaethol sy'n cyd-daro â **Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham** – yn annog ein prif sefydliadau celfyddydol a diwylliannol, prifysgolion, sefydliadau ymchwil a busnesau i ddod ynghyd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf yn arloesedd a chreadigrwydd Prydain.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn cynnal **Gŵyl Cymru yn Wrecsam yn 2024** er mwyn dangos doniau Cymru i'r byd a helpu i werthu ein doniau dramor drwy benodi Cenhadon Masnach Cymreig mewn dinasoedd ledled y byd.

Byddwn yn **buddsoddi mewn systemau data a chyfrifiadureg o'r radd flaenaf** a all ategu ymchwil, fel y gwaith dilyniannu genetig arloesol a gynhelir ym Miobanc y DU, Genomics England a phrosiect newydd Cyflymu Canfod Clefyd, a allai drawsnewid diagnosis a thriniaeth.

Ynghyd â buddsoddi mewn gwyddoniaeth, byddwn yn parhau i gefnogi'r celfyddydau a diwylliant, gan ymfalchïo yng nghryfderau diwydiannau creadigol y DU a'i threftadaeth ddiwylliannol ddigyffelyb. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael £15 miliwn ychwanegol y byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn ei wario ar dreftadaeth, diwylliant a phrosiectau creadigol sy'n esgor ar adfywio a mwy o dwristiaeth. .

# Cefnogi bywyd gwledig a chymunedau arfordirol

**Hyd yn oed wrth i'r DU yrru ymlaen yn y dyfodol, ni ddylem anghofio'r cymunedau hynny nad ydynt wedi rhannu twf ein heconomi yn llawn.**

Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i sicrhau bod pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn gytbwys – a bydd cyflawni Brexit yn ein galluogi i roi cymorth newydd i bobl mewn cymunedau gwledig ac arfordirol yng Nghymru, ac i'n diwydiannau ffermio a physgota.

Bwriadwn wneud eu bywydau yn llawer haws dyfroedd ym mis Rhagfyr 2020.

## Cytundeb ffermio wedi Brexit

**Ar ôl i ni gyflawni Brexit, byddwn yn rhyddhau ein ffermwyr Cymreig rhag y Polisi Amaethyddol Cyffredin biwrocrataidd ac yn symud i system newydd. I gefnogi'r cyfnod hwn o bontio, byddwn yn gwarantu'r gyllideb flynyddol bresennol i ffermwyr ym mhob blwyddyn o oes y Senedd nesaf.**

**Byddwn yn cynyddu'r cwota blynyddol ar gyfer y Cynllun Gweithwyr Amgylcheddol Tymhorol rydym yn ei dreialu o 2,500 i 10,000.**

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn:

- Gweithio gyda chynhyrchwyr bwyd a ffermwyr Cymreig, ac arbenigwyr amgylcheddol, a rhanddeiliaid eraill, i lunio system amaeth-amgylcheddol newydd i Gymru.
- Hyrwyddo ein cynnyrch o ansawdd a cheisio datblygu Strategaeth Bwyd a Diod Cymreig a arweinir gan y diwydiant.
- Datblygu dull newydd a chyfannol o ddileu TB buchol.
- Sicrhau bod cryfder brand Cymru yn cael ei gynnal a'i wella wrth i ni ymadael â'r UE.
- Adolygu dynodiad Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer Cymru fel parth perygl nitradau.
- Defnyddio'r ffaith ein bod yn ymadael â'r UE i annog y sector cyhoeddus yng Nghymru i 'Brynu Cynnyrch Cymreig' er mwyn cefnogi ein ffermwyr a lleihau'r costau amgylcheddol.

## Cytundeb pysgodfeydd wedi Brexit

- Wrth ymadael â'r UE, byddwn yn **gadael y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin**, gan ddod yn wladwriaeth arfordirol annibynnol a chymryd rheolaeth o'n dyfroedd ym mis Rhagfyr 2020.
- Byddwn yn **cynyddu'r cyllid sydd ar gael i bysgodfeydd ledled gwledydd y DU** drwy oes y Senedd ac yn cefnogi'r gwaith o adfywio ein cymunedau arfordirol.
- Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn cyflwyno **strategaeth bysgota newydd a fyddai'n seiliedig ar egwyddor yr 'enillion cynaliadwy mwyaf'**, a byddai'n ei gwneud hi'n ofynnol yn gyfreithiol i Lywodraeth Cymru **gynnal cynaliadwyedd stociau pysgod drwyddi draw**.
- Rydym am **gyflwyno band eang gigabit ledled y wlad erbyn 2025, ac rydym eisoes wedi addo £5 biliwn mewn cyllid, a byddwn yn sicrhau gwell signal ffonau symudol** ledled y wlad.
- Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau plismona ychwanegol i **fynd i'r afael â throseddau gwledig**.
- Mewn ardaloedd – fel rhai trefi arfordirol a marchnad – a danwasanaethwyd yn hanesyddol o ran addysg a gwasanaethau cyhoeddus (ymhlith llawer mwy), byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn sefydlu cronfa i drefi glan môr a marchnad er mwyn codi safonau a chefnogi gwaith adfywio. Byddai hefyd yn **buddsoddi yn y rhwydwaith bysiau** er mwyn gwella gwasanaethau nad ydynt yn rheolaidd neu nad ydynt yn bodoli yng nghefn gwlad, gan gynnwys mwy o wasanaethau ar alw.

Fel yn yr economi ehangach gallwn gyfuno twf cryf o ran cyflogaeth â safonau cyflogaeth uchel, felly credwn y **dylai ffermwyr a physgotwyr Cymreig allu elwa drwy gynhyrchu bwyd a physgod sy'n destun cenfigen gweddill y byd** – o ran eu hansawdd a'r safonau uchaf y'u cynhyrchwyd iddynt.

**Rydym am i bobl, gartref a thramor, fod yn ysu am gael prynu cynnyrch Cymreig**. Ac un o gyfleoedd mawr Brexit

yw'r cyfle i arwain y byd o ran ansawdd ein bwyd, amaethyddiaeth a rheoli tir – a lywir gan bolisi gwyddonol, seiliedig ar dystiolaeth.

Ac rydym am i'r un ffermwyr a physgotwyr hynny **ddiogelu byd natur**, gan gynnal ardaloedd gwledig a dyfroedd y DU fel maent wedi'u gwneud ers cenedlaethau.

## Stiwardiaid ein hamgylchedd

**Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn gweithio i ddiogelu a gwella mesurau amgylcheddol ledled Cymru ac yn sicrhau nad ydym yn cael ein gadael ar ôl, o ystyried mai ni oedd y wlad gyntaf i ddatgan argyfwng hinsawdd.**

Byddem yn:

- Cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru.
- Gwahardd plastigau defnydd untro.
- Cyflwyno cynllun ernes ar gyfer cynwysyddion yfed.
- Diddymu Cyfoeth Naturiol Cymru a chyflwyno corff gwarchod amgylcheddol newydd ac annibynnol yn ei le, sydd â mwy o bwerau a mwy o adnoddau.
- Gosod moratoriwm ar gymeradwyo llosgyddion mawr newydd yng Nghymru.
- Hyrwyddo cynllun i blannu coed mewn ardaloedd trefol.
- Cyflwyno cosbau llymach am dipio anghyfreithlon, baw ci a thaflu sbwriel.

Bydd Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yn cyflwyno cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig, fel mai cynhyrchwyr sy'n talu costau llawn delio â'r gwastraff maent yn ei gynhyrchu, ac yn rhoi hwb i ailgylchu domestig. Byddwn yn gwahardd allforio gwastraff plastig i wledydd nad ydynt yn rhai OECD, ac yn ymgynghori â'r diwydiant, sefydliadau anllywodraethol a chynghorau lleol er mwyn pennu dyddiad i gyflawni hyn.

- **Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r Ddeddf Hela**.

# Atgyfnerthu ein Hundeb

**Y Deyrnas Unedig yw'r undeb gwleidyddol ac economaidd mwyaf llwyddiannus mewn hanes. Gyda'i gilydd, mae Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy diogel, yn gryfach ac yn fwy ffyniannus. Ers dros 300 mlynedd, mae ein pobl wedi adeiladu'r wlad fawreddog hon gyda'i gilydd a chredwn bod y gorau i ddod.**

Drwy gyflawni Brexit, byddwn yn darparu sicrwydd fel y gall pedair cenedl y DU symud ymlaen gyda'i gilydd. Bydd hyn yn ein galluogi i atgyfnerthu'r Undeb, drwy weithio fel Llywodraeth er budd y Deyrnas Unedig gyfan, gan gynnwys pawb ble bynnag maent yn byw.

## Buddsoddi ledled yr Undeb

**Cronfa Ffyniant a Rennir y DU:** Defnyddir Cronfa Ffyniant a Rennir y DU i **ddwyn y Deyrnas Unedig gyfan ynghyd, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd yn y pedair gwlad**. Bydd yn cymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE sy'n llawer rhy fiwrocrataidd – a bydd hefyd yn diwallu anghenion y DU yn well. Bydd Cymru yn cael yr un lefel o gymorth ariannol o leiaf ag y mae'n ei gael gan yr UE ar hyn o bryd.

**Atgyfnerthu'r Undeb**: Mae gan y Ceidwadwyr hanes balch o gynnal ac atgyfnerthu'r setliadau datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym am sicrhau bod sefydliadau Llywodraeth y DU yn gweithio'n effeithiol i **wireddu buddiannau ein pedair cenedl yn cydweithio fel un Deyrnas Unedig**. Byddwn yn ystyried yn ofalus argymhellion Adolygiad Annibynnol yr Arglwydd Dunlop o allu Undeb Llywodraeth y DU pan gaiff ei gyhoeddi, wrth i ni edrych ar ffyrdd o atgyfnerthu ein Hundeb yn y dyfodol.

**Porthladdoedd rhydd**: Byddwn yn anelu at sicrhau bod **ein porthladdoedd rhydd newydd o fudd i'r bobl yn y pedair gwlad**. Credwn fod gan sawl rhan o'r Deyrnas Unedig y cyfle i fod yn **ganolfannau arloesedd llwyddiannus i fasnach fyd-eang**.

## Buddsoddi yng Nghymru

**Yn refferendwm 2016, pleidleisiodd Cymru dros Adael – ond mae Llywodraeth Lafur Cymru a Phlaid Cymru yn benderfynol o wrthdroi'r penderfyniad hwnnw drwy gynnal refferendwm arall ar ein haelodaeth o'r UE.**

Dim ond y Ceidwadwyr Cymreig all roi terfyn ar yr ansicrwydd presennol drwy **barchu penderfyniad democrataidd pobl Cymru i Adael** – cyflawni Brexit fel y gallwn wireddu potensial Cymru fel rhan o'r Deyrnas Unedig.

Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer economi Cymru a'n Hundeb. Byddwn yn **sicrhau bod Cymru yn cael cytundeb teg, gan wneud buddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith a diwydiant** er mwyn cynnig cyfle gwirioneddol ledled y wlad.

Ar ôl Brexit, byddwn yn **parhau i hyrwyddo allforion o Gymru a phresenoldeb Cymru ar y llwyfan byd-eang** fel rhan o Deyrnas Unedig gref.

- **Cytundeb Twf y Gororau**: Yn rhy aml mae seilwaith yn canolbwyntio ar gysylltedd cenedlaethol yng Nghymru ac yn Lloegr, yn hytrach nag ar draws y cymunedau sy'n byw ac yn gweithio wrth y ffin. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r cynghorau bob ochr i'r ffin er mwyn negodi **Cytundeb Twf trawsnewidiol i'r Gororau, gan ganolbwyntio ar seilwaith trawsffiniol sy'n cefnogi'r economi leol a thrawsffiniol**. Modelir hyn ar y cydweithio llwyddiannus rhwng llywodraethau a chynghorau drwy Gytundeb Twf y Gororau yng Ngogledd Lloegr a De'r Alban – gan adeiladu ar waith partneriaeth **Porth y Gorllewin** yr ydym eisoes wedi'i gyhoeddi.

- **Trafnidiaeth**: Er mwyn cefnogi ein Hundeb, byddwn, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, yn **uwchraddio'r A55** fel y briffordd yn y gogledd, gan wella ei chapasiti a'i hydwythedd i feithrin cysylltiadau rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn **creu ffordd liniaru'r M4** a roddwyd o'r neilltu gan y weinyddiaeth Lafur. Gwnaethom roi cymorth ariannol i Lywodraeth Cymru er mwyn adeiladu'r ffordd liniaru, ond penderfynodd y weinyddiaeth Lafur roi'r gorau i'r cynlluniau hynny am ei bod yn wangalon.  Mae'r ffordd hon yn hanfodol i'r economi ac mae ei chanslo yn dangos bod Cymru yn cael ei llesteirio'n barhaus gan Lywodraeth Lafur Cymru. Byddwn hefyd yn cyflawni ein hymrwymiad i **ariannu'r gwaith o adeiladu Gorsaf Parcffordd Gorllewin Cymru** y tu allan i Abertawe.

- **Y diwydiant modurol**: Mae'r diwydiant modurol yng Nghymru yn cynnal degau o filoedd o swyddi a chredwn fod ganddo ddyfodol disglair o'i flaen. Ym mis Medi, gwnaethom weithio i ddod ag INEOS Automotive i Ben-y-bont ar Ogwr, a fydd yn creu 500 o swyddi newydd. Byddwn yn parhau i **gefnogi gweithgynhyrchu ceir yng Nghymru,** wrth i'r diwydiant symud i adeiladu **cerbydau trydan** yn y degawdau i ddod.

- **Cefnogi'r diwydiant dur**: Byddai Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynnal diwydiant dur cystadleuol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

- **Y Gymraeg**: Mae'r Ceidwadwyr yn ymfalchïo yn y Gymraeg a'i diwylliant. Byddwn yn **cefnogi sefydliadau Cymreig** fel S4C, y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru, yr Urdd a'r Eisteddod Genedlaethol. Byddwn yn cefnogi'r uchelgais i gael **miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050**.

## Diogelu ein democratiaeth

**Fel Ceidwadwyr, safwn dros ddemocratiaeth a'r rheol gyfreithiol. Caiff ein llysoedd annibynnol a'n system gyfreithiol eu parchu ledled y wlad.**

Rydym yn ymrwymedig i ddatganoli a gallwn warantu na fydd Cymru yn colli unrhyw bwerau ar ôl i ni ymadael â'r UE. **Yn wir, bydd Brexit yn golygu bod mwy o bwerau yn llifo i'r seneddau datganoledig, gan wneud penderfyniadau yn agosach i'r bobl maent yn effeithio arnynt.**

Un o gryfderau cyfansoddiad y DU yw ei allu i ddatblygu – wrth i'r oes newid, felly hefyd y Senedd, y llywodraeth a'r farnwriaeth.

Heddiw, mae'r angen hwnnw yn fwy nag erioed. Mae methiant y Senedd i gyflawni Brexit – y ffordd mae cynifer o ASau wedi ymroi i rwystro penderfyniad democrataidd pobl Prydain yn refferendwm 2016 – wedi creu hollt ansefydlogol a hynod andwyol o bosibl rhwng gwleidyddion a phobl. Os bydd argyfwng Brexit yn parhau, gan gynnal ail refferendwm ac ail refferendwm yn yr Alban hefyd, byddant yn colli ffydd hyd yn oed ymhellach.

Dim ond drwy gyflawni Brexit y gallwn ddechrau mynd i'r afael â'r dasg anodd o adfer ymddiriedaeth y cyhoedd mewn llywodraeth a gwleidyddiaeth:

- Byddwn yn sicrhau bod gennym **ffiniau Seneddol cyfartal sydd wedi'u diweddaru**, gan sicrhau **bod pob pleidlais yn cyfrif yr un peth** – un o gonglfeini democratiaeth.
- Byddwn yn **dileu'r Ddeddf Seneddau Tymor Penodol** – mae wedi ein parlysu pan oedd angen cymryd camau pendant.
- Byddwn yn **parhau i gefnogi system bleidleisio y Cyntaf i'r Felin**.
- Byddwn yn **diogelu uniondeb ein democratiaeth**, drwy **gyflwyno system prawf adnabod i bleidleisio** mewn gorsafoedd pleidleisio, **atal casglu pleidleisiau post ynghyd** a mesurau i **atal unrhyw ymyrryd o dramor mewn etholiadau**.
- Byddwn yn **ei gwneud hi'n haws i Brydeinwyr ar wasgar bleidleisio** mewn etholiadau Seneddol, ac yn dileu'r terfyn 15 mlynedd mympwyol ar eu hawliau pleidleisio.
- Byddwn yn **cadw'r oedran pleidleisio o 18 oed ar gyfer etholiadau'r DU** – yr oedran y bydd rhywun yn cael hawliau dinasyddiaeth llawn.
- Byddwn yn sicrhau **nad oes neb yn cael eu hatal rhag ymwneud â gwleidyddiaeth na sefyll etholiad oherwydd bygythiadau, aflonyddu neu ddifrïo,** boed hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein.
- Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn parhau i wrthwynebu cynlluniau Llafur, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol i ymestyn hawliau pleidleisio i garcharorion. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i atal carcharorion rhag pleidleisio yng Nghymru a Lloegr.
- Byddwn yn **hyrwyddo rhyddid i fynegi barn a goddefiant,** yn y DU a thu hwnt.
- Er mwyn cefnogi'r rhyddid i leisio barn, byddwn yn **diddymu adran 40 o Ddeddf Troseddau a Llysoedd 2014**, sy'n ceisio cymell y wasg.
- Byddwn yn **sicrhau bod taliadau diswyddo yn cael eu cymryd yn ôl pan fydd gweision cyhoeddus ar gyflogau uchel yn symud** rhwng swyddi.
- Byddwn yn gwella'r **defnydd o ddata, gwyddor data a thystiolaeth** wrth lywodraethu.

Ar ôl Brexit bydd hefyd angen i ni **edrych ar yr agweddau ehangach ar ein cyfansoddiad**: y gydberthynas rhwng y Llywodraeth, y Senedd, a'r llysoedd; gweithrediad yr Uchelfraint Frenhinol; rôl Tŷ'r Arglwyddi a mynediad at gyfiawnder i bobl gyffredin. Mae gallu ein gwasanaethau diogelwch i'n hamddiffyn rhag terfysgaeth a throseddau cyfundrefnol yn hanfodol. Byddwn yn diweddaru'r Ddeddf Hawliau Dynol a chyfraith weinyddol er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng hawliau unigolion, ein diogelwch cenedlaethol hanfodol a llywodraeth effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod adolygiad barnwrol ar gael i ddiogelu hawliau unigolion yn erbyn gwladwriaeth ormesol, gan sicrhau na chaiff ei chamddefnyddio i gynnal gwleidyddiaeth mewn ffordd arall neu greu oedi diangen. Yn ein blwyddyn gyntaf byddwn yn sefydlu **Comisiwn Cyfansoddiad, Democratiaeth a Hawliau** a fydd yn edrych ar y materion hyn yn fanwl, ac yn cyflwyno cynigion i adfer ymddiriedaeth yn ein sefydliadau a'r ffordd mae ein system ddemocrataidd yn gweithio.



# Byddwn yn Atgyfnerthu Cymru yn y Byd

Fel Ceidwadwyr, rydym yn hynod falch o hanes y DU a'i statws yn y byd, yn enwedig hanes hir ymroddiad ac aberth parhaus y Cymry hynny sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog. Yn wahanol i arweinwyr presennol y Blaid Lafur, credwn fod ein gwlad yn rym daioni.

Mae cryfder y Lluoedd Arfog, ein cydberthnasau â democratiaethau tebyg a'n parodrwydd i weithredu i gyd yn rhesymau i'r DU ddal ei phen yn uchel. Felly hefyd ein gwaith i hyrwyddo datblygu rhyngwladol a brwydro newid hinsawdd – sydd ill dau yn faterion lle mae'r Blaid Geidwadol a Llywodraethau Ceidwadol wedi llywio'r agenda.

**Ac mewn byd ansicr, lle mae bygythiad terfysgaeth, gwladwriaethau amheus a chyfranogwyr milain nad ydynt yn wladwriaethau i'w weld o hyd, rhaid i Brydain sefyll dros ei hegwyddorion.**

Drwy gyflawni Brexit bydd modd i ni wneud mwy ar y llwyfan rhyngwladol. Byddwn yn parhau i fod yn wlad flaengar sy'n hyrwyddo cyd-ddiogelwch, y rheol gyfreithiol, hawliau dynol, masnach rydd, ymdrechion gwrth-lygredd a system ryngwladol seiliedig ar reolau.

Ar ôl Brexit, byddwn yn cryfhau'r cynghreiriau a'r sefydliadau sy'n helpu i gyflwyno ein dylanwad a'n cadw'n ddiogel: y Cenhedloedd Unedig (CU) a Chyngor Diogelwch y CU; NATO; Five Eyes; y Gymanwlad; yr G20; G7; a Sefydliad Masnach y Byd. Byddwn yn agor marchnadoedd newydd ac yn cefnogi masnach rydd a thwf byd-eang.

Byddwn yn adeiladu ar ein hanes clodwiw o gynnal digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr, gan gynnwys cefnogi Gemau'r Gymanwlad sydd ar ddod, Pencampwriaeth Merched Ewropeaidd UEFA a Chwpan Rygbi Cynghrair y Byd, a byddem yn cefnogi cynnig posibl rhwng y DU ac Iwerddon am Gwpan y Byd FIFA 2030.

Wrth i ni ehangu ein rhwydwaith diplomyddol, byddwn yn adfywio cydberthnasau ag Ewrop ac yn ceisio atgyfnerthu partneriaethau hen a newydd ledled y byd. Byddwn yn gweithio gyda'n sefydliadau diwylliannol fel y BBC a'r British Council er mwyn cynyddu ein dylanwad a chyflwyno ein gwerthoedd. Ac yn wahanol i Jeremy Corbyn, byddwn yn sefyll i fyny i wledydd tramor sy'n bygwth sefydlogrwydd Ewrop, neu'n cyflawni llofruddiaeth wedi'i chymeradwyo gan y wladwriaeth ar dir Prydain.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn gwerthu Cymru i'r byd drwy strategaeth allforio newydd ar gyfer Cymru a rhwydwaith o Genhadon Masnach ledled y byd, gan weithio gyda Llysgenadaethau Prydeinig er mwyn achub ar gyfleoedd masnachol i fusnesau Cymru.

# Cefnogi ein cyn-filwyr a buddsoddi yn nynion a menywod Lluoedd Arfog heddiw

Mae Llywodraeth Geidwadol yn deall yr aberth a wneir gan aelodau o'r Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Dyna pam y byddwn yn **cyflwyno deddfwriaeth newydd i fynd i'r afael â'r hawliadau cyfreithiol blinderus sy'n tanseilio ein Lluoedd Arfog ac yn corffori ymhellach Gyfamod y Lluoedd Arfog yn y gyfraith.**

Byddwn yn parhau i **gydnabod a nodi cyfraniad amhrisiadwy cymunedau ar wasgar** mewn achosion o wrthdaro arfog blaenorol, ac rydym hefyd yn cydnabod cyfraniad presennol cynifer o'r tu hwnt i'r DU, fel y Gyrcas.

Yn ogystal, byddwn yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau i gefnogi aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr.

- Byddwn yn **lleihau cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr** os ydynt yn cyflogi cyn-filwyr.
- Byddwn yn **cynnig gofal plant cofleidiol i deuluoedd y Lluoedd Arfog**.
- Rydym wedi **sefydlu Swyddfa newydd ar gyfer Materion Cyn-filwyr** a byddwn yn **cyflwyno Cerdyn Rheilffordd i Gyn-filwyr**.
- Byddwn yn **gwarantu cyfweliad swydd i gyn-filwyr** am unrhyw rôl neilltuol yn y sector cyhoeddus y maent yn gwneud cais amdani

**Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn:**

- **Penodi Comisiynydd y Lluoedd Arfog i Gymru**, sy'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn hyrwyddo anghenion y gymuned lluoedd arfog a sicrhau bod Cymru yn cynnal Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- **Sefydlu Cerdyn Lluoedd Arfog** sy'n darparu'r canlynol:
  – teithiau bws am ddim
  – mynediad â blaenoriaeth at driniaeth y GIG ac addasiadau i'r cartref am anafiadau neu salwch sy'n gysylltiedig â gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog
  – mynediad am ddim i ganolfannau hamdden a safleoedd treftadaeth CADW
- **Cyflwyno Premiwm Disgyblion i blant** aelodau o'r lluoedd arfog.
- **Darparu 150 o dai cymdeithasol gwag i'w defnyddio**, yn benodol ar gyfer cyn-filwyr sydd mewn perygl o ddigartrefedd.
- **Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol** i sicrhau bod cofebau rhyfel yn cael eu cynnal a'u cadw.

## Rhoi ein diogelwch cenedlaethol yn gyntaf

**Diogelwch ein gwlad sy'n dod yn gyntaf. Byddwn yn diogelu pobl Prydain gartref a thramor, a hefyd yn sicrhau hawliau democrataidd pobl Gibraltar, Ynysoedd Falkland a'n holl diriogaethau dramor.**

- Byddwn yn **parhau i wario mwy na tharged NATO sef 2 y cant o CDG ar amddiffyn ac yn cynyddu'r gyllideb 0.5 y cant o leiaf uwchlaw chwyddiant bob blwyddyn** o oes y Senedd newydd.
- Byddwn yn **moderneiddio cyfarpar ac yn gwella gallu ein Lluoedd Arfog a'n hasiantaethau cudd-wybodaeth sydd o'r radd flaenaf.**
- Byddwn yn **buddsoddi mewn hyfforddiant a chyfarpar ar gyfer ein Lluoedd Arfog**, ac yn mynd ati'n barhaus i hyrwyddo eu cyfraniad clodwiw at ein diogelwch a'n gwlad.
- Byddwn yn **cadw Trident, ein harf ataliol niwclear**, sy'n ein cadw'n ddiogel.
- Byddwn yn ymaddasu i fygythiadau newydd, **gan fuddsoddi mwy mewn seiberddiogelwch a sefydlu Rheolaeth Ofod gyntaf y DU**.
- Byddwn yn **sefyll yn erbyn terfysgaeth ac eithafiaeth** ledled y byd.
- Byddwn yn **cefnogi diwydiant amddiffyn y DU sydd o'r radd flaenaf** drwy fuddsoddi mewn rhaglenni byd-eang uchelgeisiol, gan gynnwys adeiladu'r ffrigadau Math 31 newydd mewn iardiau llongau Prydeinig yn Rosyth a chenhedlaeth newydd o gerbydau arfog, a wneir ym Mhrydain.

Mae pobl Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r lluoedd arfog ac mae canolfannau milwrol yng Nghymru yn asedau hollbwysig yn ein seilwaith amddiffyn. Bydd ASau Ceidwadol Cymreig yn parhau i frwydro am ôl-troed Lluoedd Arfog sylweddol yng Nghymru ac i sicrhau ei fod yn gymesur â'r ystad amddiffyn mewn rhannau eraill o'r DU.

# Hyrwyddo ein gwerthoedd

**O helpu i roi terfyn ar gaethfasnach i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, mae'r DU wedi hyrwyddo rhyddid a hawliau dynol ers amser hir – a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym yn falch o'n hymdrechion creu heddwch a dyngarol ledled y byd, yn enwedig mewn cymdeithasau a rwygwyd gan ryfel neu sydd wedi'u rhwygo mewn ffordd arall, ac o'n record yn helpu i leihau tlodi byd-eang. Byddwn yn parhau i gefnogi mentrau rhyngwladol i gyflawni cyfamod, sefydlogrwydd a chyfiawnder ledled y byd, ac mewn ardaloedd lle ceir gwrthdaro ar hyn o bryd, neu lle y bu gwrthdaro, fel Cyprus, Sri Lanca a'r Dwyrain Canol, lle rydym yn dal i gefnogi datrysiad deuwladol.**

Ar ôl i ni ymadael â'r UE, byddwn yn hyrwyddo'r gwerthoedd hyn hyd yn oed yn gryfach.

- Byddwn yn **datblygu ymhellach gyfundrefn sancsiynau annibynnol tebyg i Magnitsky** er mwyn mynd i'r afael â'r rheini sy'n torri hawliau dynol yn uniongyrchol.
- Byddwn yn **sefyll i fyny dros hawliau a chyfleoedd menywod a merched** i gael addysg ac i fod yn ddiogel.
- Byddwn yn **parhau i ymgyrchu i hyrwyddo rhyddid y cyfryngau rhyngwladol ac i ddileu masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern**.
- Byddwn yn **cefnogi cymunedau sydd ar y cyrion yn y byd datblygol, ac yn cynnal cynhadledd LGBT ryngwladol gyntaf erioed** Llywodraeth y DU. Byddwn yn ceisio **diogelu'r rhai sy'n cael eu herlid am eu ffydd** ac yn gweithredu argymhellion Adolygiad Truro.
- Byddwn yn **cynnal ein hymrwymiad i wario 0.7 y cant o GNI ar ddatblygu, ac yn gwneud mwy i helpu gwledydd sy'n derbyn cymorth i ddod yn hunangynhaliol**.

## Lles Anifeiliaid

**Mae safonau uchel o ran lles anifeiliaid yn un o nodweddion cymdeithas waraidd. Mae gennym draddodiad hir o ddiogelu anifeiliaid yn y wlad hon, yn aml sawl blwyddyn cyn i eraill ddilyn. O dan Lywodraeth Geidwadol yn San Steffan, bydd hynny'n parhau.**

- **Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r Ddeddf Hela.**
- Byddwn yn **cyflwyno deddfau newydd ar ymdeimlad anifeiliaid**.
- Byddwn yn **rhoi terfyn ar siwrneiau rhy hir er mwyn lladd a thewhau anifeiliaid**.
- Byddwn yn **parhau i wahardd ifori ac yn ei ymestyn** i rywogaethau eraill ag ifori, a byddwn yn **gwahardd mewnforion hela trysorau anifeiliaid sydd mewn perygl**.

**Yn ogystal â'r camau a gymerir gan Lywodraeth Geidwadol yn San Steffan, byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn:**

- Cyflwyno Cyfraith Lucy er mwyn **gwahardd gwerthu cŵn a chathod drwy drydydd parti a'i gwneud yn orfodol i gael CCTV mewn lladd-dai yng Nghymru**, fel sydd eisoes yn digwydd yn Lloegr.
- **Adolygu safonau bridio** a gofynion cofrestru **anifeiliaid anwes** er mwyn sicrhau bod digon o ddiogelwch ar gael i anifeiliaid.
- **Cefnogi labelu gonest** er mwyn gwella dewis defnyddwyr, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng dulliau o ladd anifeiliaid lle cânt eu stynio a lle na chânt eu stynio.
- Cynyddu **defnydd y sector cyhoeddus o gynnyrch Cymreig lles uchel**.
- **Gwahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes**.

- Gan adeiladu ar ymdrechion presennol y Llywodraeth hon, byddwn yn **rhoi terfyn ar farwolaethau mamau, babanod newydd-anedig a phlant y gellid eu hosgoi erbyn 2030, ac yn arwain y ffordd o ran dileu Ebola a malaria**.
- Byddwn yn cefnogi adeiladu'r **Gofeb** a gynllunnir ar gyfer yr **Holocost yn y DU**.
- Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn disodli rhaglen Cymru o Blaid Affrica â rhaglen Cymru o Blaid y Byd ac yn treblu ei chyllid i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni nodau datblygu'r mileniwm yn Affrica, y Dwyrain Canol, Asia a De America.

## Brwydro newid yn yr hinsawdd a diogelu ein hamgylchedd

**Heddiw, mae'r argyfwng hinsawdd yn golygu bod yr heriau rydym yn eu hwynebu yn ymestyn ymhell tu hwnt i'n ffiniau.**

Diolch i ymdrechion Llywodraethau

olynol, mae'r DU wedi **torri allyriadau carbon yn fwy nag unrhyw wlad ddatblygedig tebyg**. Ni sy'n **arwain y byd bellach o ran gwynt ar y môr** – llwyddiant ysgubol lle mae'r Llywodraeth a'r sector preifat wedi gweithio law yn llaw i dorri costau a chyflenwi mwy a mwy o drydan am gostau llai.

Yn wahanol i Jeremy Corbyn, credwn y gall marchnadoedd rhydd, arloesedd a ffyniant ddiogelu'r blaned.

**Eto i gyd sylweddolwn fod llawer mwy sydd angen ei wneud**.

- **Byddwn yn arwain y frwydr fyd-eang yn erbyn newid hinsawdd drwy gyflawni ein targed sy'n arwain y byd, sef allyriadau nwyon tŷ gwydr Sero Net erbyn 2050,** ar sail cyngor y Pwyllgor annibynnol ar Newid Hinsawdd. Rydym wedi **dyblu Cyllid Hinsawdd Rhyngwladol.** A byddwn yn defnyddio'r ffaith mai ni sy'n cynnal Uwch-gynhadledd Newid Hinsawdd y CU yn Glasgow yn 2020 i **ofyn i'n partneriaid byd-eang gyflawni'r un nod.**

- Byddwn yn **sefydlu partneriaethau rhyngwladol newydd i fynd i'r afael â datgoedwigo** a diogelu tirluniau a choridorau bywyd gwyllt hollbwysig. Byddwn yn sefydlu **Cronfa Blue Planet newydd gwerth £500 miliwn** er mwyn helpu i ddiogelu ein moroedd rhag llygredd plastig, tymereddau môr cynyddol a gorbysgota, ac yn **ymestyn rhaglen Llain Las** i ddiogelu'r amgylchedd morol. Byddwn yn parhau i arwain ymdrechion diplomyddol i ddiogelu 30 y cant o foroedd y byd erbyn 2030.

**Bydd ein Cyllideb gyntaf ar gyfer y DU yn rhoi blaenoriaeth i'r amgylchedd**: buddsoddi mewn ymchwil a datblygu, cynlluniau datgarboneiddio, seilwaith cerbydau trydan gan gynnwys rhwydwaith plygio i mewn cenedlaethol a gigaffatri, ac ynni glân.

Dros y degawd nesaf, byddwn yn gweithio gyda'r farchnad i **ddarparu dwy filiwn o swyddi newydd o ansawdd uchel ym maes twf glân**. Mae gennym dargedau uchelgeisiol:

- Bydd ein **diwydiant gwynt ar y môr** sy'n arwain y byd yn **cyrraedd 40GW erbyn 2030**, a byddwn yn galluogi ffermydd gwynt arnofiol newydd.

- Byddwn yn **buddsoddi £800 miliwn i adeiladu'r clwstwr storio dal carbon cyntaf a ddefnyddir yn llawn** erbyn canol yr 2020au.

- Byddwn yn **buddsoddi £500 miliwn er mwyn helpu diwydiannau ynni-ddwys i symud i dechnegau carbon isel**.

- Byddwn yn **cefnogi cynhyrchu hydrogen yn lle nwy ac ynni niwclear, gan gynnwys ymasiad,** fel rhannau pwysig o'r system ynni, ynghyd â c**hynyddu ein hymrwymiad i ynni adnewyddadwy**.

- Byddwn yn cefnogi **trafnidiaeth lân i sicrhau aer glân,** yn ogystal â **gosod cyfreithiau llym newydd ar ansawdd aer**. Byddwn yn ymgynghori ar y dyddiad cynharaf y gallwn roi'r gorau i **werthu ceir petrol a diesel confensiynol newydd**.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn ariannu ymchwil bellach i ystyried cyfleoedd i ddefnyddio ynni llanw o amgylch arfordir Cymru ac ysgogi diddordeb mewn datblygu môr-lynnoedd llanw masnachol hyfyw yn y gogledd, y de a'r gorllewin, yn enwedig lle gallant amddiffyn rhag llifogydd a darparu manteision hamdden morol.

Byddem yn helpu i leihau biliau ynni drwy **fuddsoddi yn effeithlonrwydd ynni cartrefi, ysgolion ac ysbytai** a byddwn yn cefnogi trafnidiaeth lân er mwyn sicrhau aer glân.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi nodi'n glir y dylai fod moratoriwm ar gymeradwyo unrhyw losgyddion mawr newydd nes i gynllun cenedlaethol gael ei ddatblygu i ymdrin â cheisiadau o'r fath.



**Dominic Raab**
**Ymgeisydd Esher a Walton**
**Ysgrifennydd Tramor a'r Prif Ysgrifennydd Gwladol**

Mae Cymru yn wynebu mwy o berygl o lifogydd yn sgil lefelau cynyddol y môr a glaw trymach. Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn:

- **Sefydlu Asiantaeth Llifogydd Genedlaethol** er mwyn cydlynu'r gwaith o reoli'r perygl o lifogydd a'r ymateb i lifogydd.
- **Dynodi sawl Llain Las mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd** er mwyn atal gwaith datblygu amhriodol.
- **Buddsoddi mewn gwelliannau amddiffyn rhag llifogydd** drwy Gronfa Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru.

## Cynyddu masnach a ffyniant

**Am y tro cyntaf mewn bron hanner canrif, bydd gan y DU ei pholisi masnach annibynnol ei hun ar ôl i ni ymadael â'r UE.**

Profwyd dro ar ôl tro mai masnach rydd yw'r ffordd orau o gynyddu allforion, torri prisiau defnyddwyr, cynyddu buddsoddiadau a chreu swyddi yma yn y DU. Credwn y gallwn ddefnyddio'r cyfle hanesyddol hwn i gysylltu'r DU â'r gwledydd sy'n tyfu gyflymaf yn y byd, creu cyfleoedd allforio newydd a chyfoethogi ni'n hunain a'n partneriaid masnachu.

Fel rhan o'r UE, bu'n rhaid i ni negodi cytundebau masnach a oedd yn rhoi ei flaenoriaethau yn gyntaf. Nawr, byddwn yn gallu **teilwra ein cytundebau masnach yn unol ag anghenion cwmnïau Prydeinig ac economi Prydain**.

**Bydd ein cytundebau masnach nid yn unig yn rhydd ond hefyd yn deg** – yn arbennig i'r gwledydd datblygol y gallai eu heconomïau gael eu trawsnewid gan fynediad at farchnadoedd ac arbenigedd y DU.   Gallwn, er enghraifft, gynnwys darpariaethau yn ein Cytundebau Masnach Rydd newydd sy'n hyrwyddo trin gweithwyr yn deg a datblygu grym menywod.

Mae gennym nodau uchelgeisiol briodol i fasnach Prydain. Anelwn at **sicrhau bod gan 80 y cant o fasnach y DU Gytundebau Masnach Rydd o fewn y tair blynedd nesaf**, gan ddechrau gydag UDA, Awstralia, Seland Newydd a Japan. Caiff y rhain eu negodi ar y cyd â'n cytundeb gyda'r UE.

Byddwn hefyd yn **meithrin cysylltiadau cryfach â'r Gymanwlad**, sydd â rhai o'r economïau mwyaf dynamig fel India, yr ydym eisoes yn rhannu cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol dwfn â hi. Byddwn yn defnyddio cyllid allforio i gynyddu mynediad ein busnesau at farchnadoedd newydd a chynnwys cymunedau alltud yn y DU yn yr agenda hon

Mae'r DU yn arweinydd byd mewn llawer o feysydd fel pensaernïaeth, peirianneg, cyfrifeg, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau digidol, y gyfraith a'r celfyddydau creadigol. Fel y gwnaethom arwain y ffordd wrth greu masnach mewn nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu yn y ddwy ganrif ddiwethaf, **dylem greu masnach mewn gwasanaethau**, y mae'r mwyafrif ohonom yn gweithio ynddynt a lle caiff y rhan fwyaf o swyddi newydd eu creu.

Byddwn yn **creu 10 porthladd rhydd ledled y DU**, **gan gynnwys yng Nghymru**, gan elwa rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig, a byddwn yn ailddyblu ein hymdrechion i **hyrwyddo busnesau ac allforion o Gymru**. Byddwn yn **dileu'r rhwystrau i fasnach ac yn ailgymryd ein sedd yn Sefydliad Masnach y Byd**.

Byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddod â phencampwriaeth chwaraeon fawr i Gymru.

Byddem hefyd yn gwerthu Cymru i'r byd drwy strategaeth allforio newydd ar gyfer Cymru a rhwydwaith o Genhadon Masnach ledled y byd, gan weithio gyda Llysgenadaethau Prydeinig er mwyn achub ar gyfleoedd masnachol i fusnesau Cymru.

## Wrth gynnal ein trafodaethau masnach, byddwn yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- **Byddwn yn ceisio rhoi sicrwydd i bobl Prydain mewn byd â thariffau a thensiynau masnach cynyddol.**
- **Byddwn yn ceisio sicrhau mynediad i'r farchnad i fusnesau Prydain a lleihau cost masnach iddynt.**
- **Byddwn yn negodi'n galed â'n holl bartneriaid masnachu – ac fel pob negodiad byddwn yn barod i droi cefn os mai dyna sydd orau i'r wlad.**
- **Byddwn yn amddiffyn diwydiannau Prydain rhag arferion dympio ac arferion gwrthgystadleuol eraill o dramor.**
- **Wrth negodi cytundebau masnach, ni wnawn gyfaddawdu o ran ein mesurau diogelu amgylcheddol, lles anifeiliaid a safonau bwyd uchel.**
- **Ni fyddwn yn trafod y GIG. Ni fyddwn yn trafod y pris mae'r GIG yn ei dalu am gyffuriau. Ni fyddwn yn trafod y gwasanaethau mae'r GIG yn eu darparu.**


CHIEF NURSE
NHS



# Byddwn yn Eich Rhoi Chi yn Gyntaf

## Cyflawni Brexit. Buddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus a'n seilwaith. Cefnogi gweithwyr a theuluoedd. Atgyfnerthu'r Undeb. Gwireddu potensial Prydain.

**Mae'r dyfodol yno i ni afael ynddo. Nid dyfodol lle rydym yn brwydro'n ddiddiwedd ynghylch Brexit, nac un lle mae Jeremy Corbyn a John McDonnell - gyda chefnogaeth Nicola Sturgeon - yn arwain Llywodraeth sy'n ymwrthod â phopeth sydd wedi gwneud y DU yn wych.**

Mae'r Ceidwadwyr yn cynnig dyfodol lle rydym yn cyflawni Brexit, ac yna'n symud ymlaen i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau – sydd hefyd yn flaenoriaethau i chi.

Oherwydd yn bwysicach nag unrhyw ymrwymiad unigol yn y maniffesto hwn mae'r ysbryd y'u gwnawn ynddo. Ein rôl ni yw eich gwasanaethu chi, y bobl. Cyflawni'r hyn y gwnaethoch ofyn i ni ei wneud yn 2016 – cyflawni Brexit. Ond yna symud ymlaen i wneud y DU yn wlad hyd yn oed yn well – buddsoddi yn y GIG, ein hysgolion, ein pobl a'n cymunedau.

Creu Prydain lle caiff pawb y cyfle i wneud y gorau o'u doniau. Byddwn yn sicrhau bod gwaith bob amser yn talu. Byddŵ yn creu cymdeithas deg, lle mae pawb bob amser yn cyfrannu eu cyfran deg.

O ystyried rhifyddeg y Senedd, bydd pleidlais dros unrhyw blaid neu ymgeisydd arall yn bleidlais dros Jeremy Corbyn – ac yn bleidlais dros flerwch ac oedi.

Mae angen i ni roi terfyn ar y cyfyng gyngor fel y gallwn wneud ein gwaith yn y ffordd rydych yn ei haeddu. Dyna pam rydym yn gofyn i chi bleidleisio dros Lywodraeth Geidwadol fwyafrifol ar 12 Rhagfyr.

Fel y gallwn gyda'n gilydd, dan arweiniad Boris Johnson, gyflawni Brexit, a symud ymlaen i wireddu holl botensial y wlad fawreddog hon.

Ceidwadwyr Cymreig | Welsh Conservatives

Hyrwyddwyd gan Alan Mabbutt ar ran y Blaid Geidwadol ac Unoliaethol, yn 4 Matthew Parker Street, Llundain, SW1H 9HQ.
Argraffwyd gan Paragon CC, Uned 8, Quay Point, Collivaud Place, Ocean Way, Caerdydd, CF24 5HF.